Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# Cod Ymarfer Moeseg ac Integredd Ymchwil

# Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

# Cod Ymarfer Moeseg ac Integredd Ymchwil

Gorffennaf 2022

1. Rhagarweiniad

Disgwylir i Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS) a'i hymchwilwyr gynnal y safonau moesegol uchaf a meithrin gwerthoedd megis gonestrwydd, trylwyredd, didwylledd, gofal a pharch. Er mwyn cyflawni'r nodau hyn, bydd y Brifysgol yn cynnig i'w chymuned ymchwil:

- Fframwaith eang ar gyfer moeseg ymchwil, yn cynnwys polisïau, arferion a gweithdrefnau clir i gefnogi ymchwilwyr
- Cyfleoedd dysgu, hyfforddi a mentora addas i gefnogi datblygiad ei hymchwilwyr
- Systemau rheoli cadarn i sicrhau bod polisïau yn ymwneud ag integredd ymchwil yn cael eu gweithredu, bod pryderon posibl yn cael eu nodi'n gynnar a bod mecanweithiau i gefnogi ymchwilwyr sydd angen cymorth yn cael eu darparu
- Ymwybyddiaeth ymhlith ymchwilwyr y disgwylir safonau uchel ganddynt.

Mae'r Cod Ymarfer hwn yn mynegi ymrwymiad Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant i'w safonau moesegol drwy nodi'r egwyddorion moesegol cyffredinol y mae'r Brifysgol yn disgwyl i'w hymchwilwyr eu dilyn. Mae'r Cod hwn hefyd yn diffinio'r hyn a olygir gan gamymddwyn mewn ymchwil; os yw ymchwil wedi methu â chyflawni safonau moesegol y Brifysgol.

## 2. Diben

Mae nodau ac amcanion strategol y Brifysgol yn cynnwys mynd ati'n weithredol i hyrwyddo gweithgareddau ymchwil, menter a chyfnewid gwybodaeth sy'n seiliedig ar safonau moesegol, cymdeithasol ac amgylcheddol uchel. Mae'r Cod Ymarfer hwn yn darparu fframwaith ar gyfer arfer ymchwil moesegol a gwneud penderfyniadau moesegol yn y Brifysgol.

## 3. Cwmpas

Mae'r Cod Ymarfer yn berthnasol i'r holl staff academaidd a gweinyddol, y rhai sy'n dal swyddi er anrhydedd yn y Brifysgol, a'r holl fyfyrwyr sy'n gwneud prosiectau ymchwil a gweithgareddau cysylltiedig yn rhan o gyrsiau israddedig, ôl-raddedig a chyrsiau byr a rhaglenni ymchwil y mae myfyrwyr wedi cofrestru arnynt yn y Brifysgol, a/neu'n cael eu goruchwylio gan staff yn y Brifysgol. At ddibenion y Cod hwn, diffinnir ymchwil fel gwaith sy'n cynnwys ymchwiliad systematig i bennu dealltwriaeth, ffeithiau, egwyddorion neu gyfraniad at wybodaeth a'i gymhwysiad. Mae'r Cod yn cwmpasu pob ymchwil sy'n cynnwys cyfranogwyr dynol, anifeiliaid neu ddata nad ydynt yn gyhoeddus eto, fel y manylir yn **Adran 4.3**. Dylid rhoi ystyriaeth foesegol ofalus i unrhyw ddarn o waith ar unrhyw lefel a gynhelir o fewn y Brifysgol, neu mewn partneriaeth â hi, sy'n golygu cyfranogiad gan eraill (dynol neu anifail) neu sydd â'r gallu i ymyrryd â'u bywydau neu wneud gwahaniaeth i'w bywydau. Mae 'eraill' yn aml yn cyfeirio at gyfranogwyr yn yr ymchwil ond gall hefyd gyfeirio at eraill sy'n cael eu heffeithio ganddo e.e. mewn perygl o niwed corfforol neu feddyliol. Mae hyn yn berthnasol beth bynnag yw hyd neu lefel y darn o waith, sy'n cynnwys ymchwil israddedig, ymchwil ôl-raddedig ac ymchwil staff. Nid yw'r Cod Ymarfer hwn yn cyfeirio'n uniongyrchol at gwestiynau ehangach yn ymwneud ag ymddygiad moesegol o fewn y Brifysgol mewn meysydd heblaw ymchwil.

Goruchwylir y gweithdrefnau a'r canllawiau a amlinellir yn y Cod Ymarfer hwn gan Bwyllgor Moeseg y Brifysgol, sydd, drwy weithio gyda Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol, yn arolygu cydymffurfedd o ran diogelu data ymchwil a wneir yn y Brifysgol. Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Moeseg i'w weld ym Mhennod 2 y Llawlyfr Ansawdd Academaidd (LlAA).

## 4. Cod Ymarfer Moeseg ac Integredd Ymchwil

Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant wedi ymrwymo i gynnal safonau moesegol uchel yn yr ymchwil a wneir gan ei staff a'i myfyrwyr, pa un a yw'r ymchwil yn derbyn cefnogaeth uniongyrchol gan y Brifysgol neu'n cael ei ariannu gan ffynonellau allanol. Mae'r Brifysgol yn cydnabod ei rhwymedigaethau o dan y Concordat i Gefnogi Integredd Ymchwil i sicrhau bod ymchwil a wneir dan nawdd y Brifysgol yn cael ei gynnal i safonau priodol, ac yn cydymffurfio ag egwyddorion ac arferion moesegol a dderbynnir yn gyffredinol ym maes ymddygiad a llywodraethu. Cred y Brifysgol fod adolygu a chymeradwyo moeseg ymchwil yn bwysig am y rhesymau canlynol:

- Cynnal y safonau uchaf o drylwyredd ac integredd ym mhob agwedd ar ymchwil
- Sicrhau y cynhelir ymchwil yn unol â'r fframweithiau, y rhwymedigaethau a'r safonau moesegol, cyfreithiol a phroffesiynol priodol
- Cefnogi amgylchedd ymchwil sy'n seiliedig ar ddiwylliant o integredd ynghyd â llywodraethu da, arfer gorau a chymorth i ddatblygu ymchwilwyr
- Defnyddio prosesau tryloyw, amserol, cadarn a theg ar gyfer ymdrin â honiadau o gamymddwyn mewn ymchwil, pan fyddant yn codi
- Sicrhau bod y Brifysgol yn bodloni ei rhwymedigaethau fel Rheolydd Data dan Ddeddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018 ("GDPR y DU") o ran prosesu data ymchwil.
- Gweithio gyda sefydliadau eraill yn ôl y gofyn o bryd i'w gilydd i gryfhau integredd ymchwil ac adolygu cynnydd yn rheolaidd ac yn agored.

### 4.1 Integredd Ymchwil

Dylai'r ymchwil a gynhelir gan ac yn y Brifysgol fod yn unol â safonau arfer da y cytunir arnynt yn gyffredinol. Mae'r Concordat i Gefnogi Integredd Ymchwil yn cydnabod bod agweddau craidd integredd ymchwil yn cynnwys:

- **Gonestrwydd** ym mhob agwedd ar ymchwil, yn cynnwys cyflwyno cyrchnodau, bwriadau a chanfyddiadau ymchwil; wrth gyflwyno adroddiadau ar ddulliau a gweithdrefnau ymchwil; wrth gasglu data, wrth ddefnyddio a chydnabod gwaith ymchwilwyr eraill; ac wrth gyfleu dehongliadau dilys a gwneud honiadau y mae modd eu cyfiawnhau ar sail canfyddiadau ymchwil.**Trylwyredd**, yn unol â normau a safonau disgyblaethol arferol: wrth wneud ymchwil a defnyddio dulliau priodol; wrth gadw at brotocol y cytunwyd arno lle bo'n briodol; wrth lunio dehongliadau a dod i gasgliadau ar sail yr ymchwil; ac wrth fynegi'r canlyniadau.
- **Tryloywder a chyfathrebu agored** wrth ddatgan gwrthdaro buddiannau; wrth gyflwyno adroddiadau ar ddulliau casglu data ymchwil; wrth ddadansoddi a dehongli data; wrth sicrhau bod canfyddiadau ymchwil ar gael yn eang, sy'n cynnwys rhannu canlyniadau negyddol fel y bo'n briodol; a chyflwyno'r gwaith i ymchwilwyr eraill ac i'r cyhoedd.
- **Gofal a pharch** at bawb sy'n cymryd rhan mewn ymchwil neu sy'n destun ymchwil, yn cynnwys bodau dynol, anifeiliaid, yr amgylchedd a gwrthrychau diwylliannol. Rhaid i'r sawl sy'n ymwneud ag ymchwil ddangos gofal a pharch hefyd at stiwardiaeth ymchwil ac ysgolheictod er budd y cenedlaethau sydd i ddod.**Atebolrwydd** i'r Brifysgol i greu amgylchedd ymchwil lle mae ei staff a'i myfyrwyr wedi'u grymuso a'u galluogi i berchnogi'r broses ymchwil. Rhaid i'r sawl sy'n ymwneud ag ymchwil sicrhau hefyd bod ymchwilwyr yn cael eu dwyn i gyfrif pan fydd ymddygiad yn methu â chyrraedd y safonau a osodir gan y Cod hwn.

Mae'r Brifysgol yn cydnabod ei bod yn rhaid i ymchwilwyr allu arfer rhyddid yn eu dewisiadau academaidd, a rhaid iddynt hefyd dderbyn cyfrifoldeb am y penderfyniadau a wnânt. Felly

mae'r prif gyfrifoldeb am sicrhau eu bod yn gweithredu'n unol â'r egwyddorion hyn ym mhob agwedd ar eu gwaith ymchwil, yn cynnwys adolygu cymheiriaid, yn gorwedd ar ysgwyddau'r unigolyn. Fodd bynnag, yn ogystal mae gan y Brifysgol, cyllidwyr ymchwil a sefydliadau eraill sy'n ymwneud â chefnogi ymchwil ac ymchwilwyr, rolau pwysig i'w chwarae. Mae'r broses lywodraethu ar gyfer staff a'r Brifysgol wedi'i hamlinellu yn y Cod Ymarfer hwn. Yn hyn o beth, yn unol â'r Concordat, ceisia'r Cod Ymarfer hwn sicrhau:

- Bod ymchwilwyr, boed ar lefel israddedig, ôl-raddedig neu staff yn y Brifysgol, yn deall y safonau disgwyliedig o ran trylwyredd ac integredd sy'n berthnasol i'w hymchwil, ac yn cynnal y safonau uchaf o ran trylwyredd ac integredd yn eu gwaith bob amser.
- Bod y Brifysgol yn gyfrifol am gynnal amgylchedd ymchwil sy'n datblygu arfer ymchwil da ac yn meithrin diwylliant o integredd ymchwil, ac sy'n cefnogi ymchwilwyr i ddeall a gweithredu yn unol â safonau, gwerthoedd ac ymddygiadau disgwyliedig, a'u hamddiffyn pan fyddant yn cyflawni'r disgwyliadau hyn mewn amgylchiadau anodd.

O ran deddfwriaeth diogelu data yn benodol, mae hyn yn golygu er bod gan y Brifysgol fel rheolydd data rwymedigaeth i weithredu mesurau sefydliadol a thechnegol priodol, rhaid i bob unigolyn sy'n atebol i'r Cod hwn gydymffurfio ag ef.

### 4.2 Adroddiad Blynyddol ar Integredd Ymchwil

Drwy fodloni gofynion y Concordat Integredd Ymchwil, bydd y Brifysgol yn cymryd camau i sicrhau bod amgylchedd ymchwil y Brifysgol yn hyrwyddo ac yn ymgorffori ymrwymiad i integredd ymchwil, ein bod yn adolygu ein prosesau'n rheolaidd i sicrhau bod y rhain yn addas i'r diben, a bod prosesau addas ar waith i ddelio â chamymddwyn. I hyrwyddo atebolrwydd, bydd y Brifysgol yn llunio Adroddiad blynyddol ar Integredd Ymchwil, a gaiff ei gyflwyno i Gyngor y Brifysgol, ac a fydd ar gael wedyn i'r cyhoedd ar wefan PCYDDS ar y dudalen we ganlynol: https://www.uwtsd.ac.uk/research/research-ethics/

Bydd y datganiad blynyddol hwn yn cynnwys:

- crynodeb o weithredoedd a gweithgareddau yr ymgymerwyd â nhw i gefnogi a chryfhau dealltwriaeth o faterion integredd ymchwil a sut i'w cymhwyso
- datganiad i roi sicrwydd y bydd y prosesau sydd gan y Brifysgol ar waith i ymdrin â honiadau o gamymddwyn yn dryloyw, amserol, cadarn a theg, a'u bod yn parhau i fod yn briodol i anghenion y sefydliad
- datganiad ar lefel uchel ar unrhyw ymchwiliadau ffurfiol a gynhaliwyd ynglŷn â chamymddwyn mewn ymchwil, a fydd yn cynnwys data ar y nifer o ymchwiliadau. Os nad oes ymchwiliad ffurfiol wedi'i gynnal, dylid nodi hynny'n ogystal
- datganiad ynghylch yr hyn y mae'r sefydliad wedi'i ddysgu o unrhyw ymchwiliadau ffurfiol a gynhaliwyd ynglŷn â chamymddwyn mewn ymchwil, gan gynnwys pa wersi sydd wedi'u dysgu i atal yr un math o ddigwyddiad rhag codi eto
- datganiad ynghylch sut mae'r sefydliad yn creu ac yn ymgorffori amgylchedd ymchwil lle mae'r holl staff, ymchwilwyr a myfyrwyr yn teimlo'n gysurus i roi gwybod am enghreifftiau o gamymddwyn

### 4.3 Ymchwil y mae'n rhaid ei ystyried ar gyfer cymeradwyaeth foesegol

Dylid rhoi ystyriaeth foesegol ofalus i unrhyw ddarn o waith ar unrhyw lefel a gynhelir o fewn y Brifysgol, neu mewn partneriaeth â hi, sy'n golygu cyfranogiad gan eraill (dynol neu anifail)

neu sydd â'r gallu i ymyrryd â'u bywydau neu wneud gwahaniaeth i'w bywydau. Mae 'eraill' yn aml yn cyfeirio at gyfranogwyr yn yr ymchwil ond gall hefyd gyfeirio at eraill sy'n cael eu heffeithio ganddo e.e. mewn perygl o niwed corfforol neu feddyliol. Mae hyn yn berthnasol beth bynnag yw hyd neu lefel y darn o waith, sy'n cynnwys ymchwil israddedig, ymchwil ôl-raddedig ac ymchwil staff. Bydd ymchwilwyr ym mhob achos yn:

- Sicrhau bod pob ymchwil yn amodol ar ystyriaeth weithredol a phriodol o faterion moesegol.
- Cydymffurfio â fframweithiau, rhwymedigaethau a safonau moesegol, cyfreithiol a phroffesiynol fel sy'n ofynnol gan awdurdodau statudol a rheoleiddio, a chan gyflogwyr, cyllidwyr a rhanddeiliaid perthnasol eraill.

Ystyrir bod y mathau canlynol o ymchwil yn cynnwys mwy nag ychydig o risg a bod angen cymeradwyaeth foesegol:

**Cyfranogwyr mewn Ymchwil**

- Ymchwil sy'n cynnwys grwpiau a allai fod yn agored i niwed, er enghraifft plant a phobl ifanc, y rhai sydd ag anabledd dysgu neu nam gwybyddol neu unigolion mewn perthynas ddibynnol neu anghyfartal.
- Ymchwil sy'n cynnwys grwpiau lle mae angen caniatâd porthgeidwad fel arfer i gael mynediad cychwynnol at aelodau. Mae hyn yn cynnwys ymchwil lle ceir porthgeidwaid megis oedolion sy'n weithwyr proffesiynol (e.e. y rhai sy'n gweithio gyda phlant neu'r henoed) neu ymchwil mewn cymunedau (yn y Deyrnas Unedig neu dramor) lle nad yw mynediad at gyfranogwyr ymchwil yn bosibl heb ganiatâd oedolyn arall, megis aelod arall o'r teulu (e.e. rhiant neu ŵr y cyfranogwr) neu arweinydd cymunedol.
- Cyfranogwyr sy'n defnyddio unrhyw wasanaethau y mae Adrannau Iechyd y DU yn gyfrifol amdanynt. Mae hyn yn cynnwys cleifion y GIG, eu data neu eu meinweoedd, ond nid yw'n gyfyngedig i hynny.
- Staff y GIG lle nad yw'r ymchwil yn gyfyngedig i gwestiynau ansensitif am eu rôl bersonol
- Carcharorion dan warchodaeth Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr, Gwasanaeth Carchardai'r Alban neu Wasanaeth Carchardai Gogledd Iwerddon
- Cyfranogwyr sy'n oedolion sydd, o dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol, heb y galluedd efallai i roi cydsyniad gwybodus

**Cynnwys Pynciol a Ffynonellau Data**

- Ymchwil sy'n cynnwys prosesu data personol fel y'i diffinnir gan Ddeddf Diogelu Data'r DU (2018) a Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU)
- 
- Unrhyw ymchwil lle mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith cynnal Asesiad o'r Effaith ar Brosesu Data (DPIA) cyn y gall y prosesu ddigwydd (a rhaid ymgynghori â Swyddog Diogelu Data PCYDDS).
- Ymchwil sy'n cynnwys pynciau sensitif: er enghraifft, ymddygiad rhywiol y cyfranogwyr, eu hymddygiad anghyfreithlon neu wleidyddol, eu profiad o drais, y gamdriniaeth ohonynt neu'r camfanteisio arnynt, eu hiechyd meddwl neu eu rhywedd neu eu statws ethnig.
- Ymchwil a wnaed y tu allan i'r DU lle gall fod ystyriaethau arfer lleol a sensitifrwydd gwleidyddol, neu sy'n destun lefelau risg uwch yn ôl y Swyddfa Dramor a Chymanwlad.
- Ymchwil sy'n cynnwys mynediad at gofnodion gwybodaeth bersonol neu gyfrinachol, gan gynnwys gwybodaeth enetig neu fiolegol arall sy'n ymwneud ag unigolion adnabyddadwy
- Ymchwil sy'n cynnwys mynediad breintiedig at gofnodion clinigol neu bersonol, neu fynediad at ddarpar gyfranogwyr ar y sail eu bod yn, neu wedi bod yn, gleifion, neu'r

gwahoddiad i gyfranogwyr ddatgelu ffeithiau amdanynt eu hunain na fyddent yn dymuno i'r ymchwilydd adael iddynt ddod yn hysbys i bersonau eraill.
- Ymchwil a allai gynnwys rhannu data gwybodaeth gyfrinachol y tu hwnt i'r caniatâd cychwynnol a roddwyd – er enghraifft pan fo'r pwnc ymchwil neu'r casglu data'n cynnwys risg o ddatgelu gwybodaeth a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i'r ymchwilwyr dorri amodau cyfrinachedd a gytunwyd gyda'r cyfranogwyr.
- Ymchwil sy'n defnyddio data gweinyddol neu ddata ddiogel. Bydd angen i ymchwilwyr sy'n defnyddio'r setiau data hyn gael eu cymeradwyo gan y corff sy'n cyflenwi'r data a chadw data mewn mannau diogel. Gallai problemau godi fodd bynnag pan fo'r data'n gysylltiedig a lle y gallai fod modd adnabod cyfranogwyr.
- Ymchwil sy'n cynnwys defnyddio meinweoedd dynol, gan gynnwys deunydd o'r ffetws a'r brych (yn unol â thelerau Deddf Meinweoedd Dynol 2004).
- Ymchwil sy'n cynnwys celanedd neu feinwe corff marw (yn unol â thelerau Deddf Meinweoedd Dynol 2004), heblaw am gelanedd a gymynnwyd a meinwe a geir fel arfer yn ystod awtopsi
- Ymchwil sy'n cynnwys unrhyw anifail, gan gynnwys rhai di-asgwrn cefn. Rhaid i ymchwil sy'n cynnwys anifeiliaid byw ag asgwrn cefn a cheffalopodau gydymffurfio â Deddf Anifeiliaid (Gweithdrefnau Gwyddonol) 1986, sy'n gofyn am Drwydded y Swyddfa Gartref ar gyfer ymchwilwyr unigol, y sefydliad(au), a'r prosiect dan sylw.

**Dulliau ymchwil**
- Ymchwil sy'n cynnwys twyll neu sy'n cael ei gynnal heb gydsyniad llawn a gwybodus y cyfranogwyr ar yr adeg y cynhelir yr astudiaeth. Cydnabyddir bod rhai achlysuron pan fo'r defnydd o ddulliau ymchwil cudd yn angenrheidiol ac yn gyfiawnadwy.
- Ymchwil a allai peri straen seicolegol, gorbryder neu gywilydd neu achosi mwy nag ychydig iawn o boen.
- Ymchwil sy'n cynnwys ymyriadau ymwthiol, a gweithredoedd neu ddulliau casglu data mewnwthiol: er enghraifft, rhoi sylweddau, ymarfer corff egnïol neu dechnegau megis hypnotiaeth, ac yn enwedig, lle mae'r cyfranogwyr yn cael eu perswadio i ddatgelu gwybodaeth na fyddent fel arall yn ei datgelu yn ystod bywyd bob dydd.
- Ymchwil sy'n cynnwys unrhyw fath o risg neu fwy na'r anghyfleustra lleiaf i'r cyfranogwr; gallai hyn gynnwys cyfweliadau, arsylwadau a grwpiau ffocws, ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain.
- Ymchwil sy'n defnyddio dyfais feddygol sydd heb nod CE
- Ymchwil gan ddefnyddio technegau, technolegau neu ddyfeisiau newydd hyd yn oed pan nad ydynt yn ymddangos yn fewnwthiol, os oes lle i amau eu diogelwch.
- Ymchwil lle gallai fod amheuaeth am ddiogelwch yr ymchwilydd, yn enwedig y rhai sy'n gwneud gwaith maes, a chynorthwywyr ymchwil a gyflogir yn lleol sy'n gweithio y tu allan i'r DU.
- Ymchwil sy'n cynnwys atebyddion drwy'r rhyngrwyd, yn enwedig lle defnyddir delweddau gweledol, a lle trafodir materion sensitif.
- Ymchwil sy'n cynnwys dulliau gweledol/llafar, yn enwedig lle bo modd adnabod y cyfranogwyr neu unigolion eraill.

Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth a gallai fod angen i fathau eraill o ymchwil gael cymeradwyaeth foesegol hefyd. Ym mhob achos o amheuaeth, dylid gofyn am gyngor priodol bob amser.

## 5. Gweithdrefnau ar gyfer Cymeradwyaeth Foesegol i Brosiectau Ymchwil:

Er mwyn sicrhau bod gweithdrefnau'r Brifysgol ar gyfer cynnal y safonau uchaf o integredd ymchwil yn weithredol effeithlon ac yn gymesur â'r risgiau, sefydlir gweithdrefnau ar wahân

ar gyfer ymchwil israddedig, ymchwil ôl-raddedig a addysgir, graddau ymchwil ôl-raddedig ac ymchwil staff.

### 5.1 Cyrsiau Israddedig ac Ôl-raddedig a Addysgir a Thraethodau Hir Israddedig

O dan amgylchiadau arferol, nid yw'r Pwyllgor Moeseg yn adolygu nac yn cymeradwyo prosiectau ymchwil na gweithgareddau ymchwil cysylltiedig a gynhelir fel rhan o raglenni israddedig ac ôl-raddedig a addysgir, cyrsiau byr a addysgir, neu draethodau hir israddedig. Fodd bynnag, mae'n cynnig cyngor, arweiniad a chefnogaeth i staff academaidd sy'n goruchwylio addysgu, asesu, prosiectau a gweithgareddau o'r fath. Mae gan bob Athrofa ei gweithdrefn ei hun ar gyfer sicrhau nad yw ymchwil a wneir o fewn ei phriod raglenni yn torri safonau moesegol (gan gynnwys deddfwriaeth diogelu data, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny). Caiff y gweithdrefnau hyn eu hadolygu a'u diweddaru yn ôl yr angen. Adolygir gweithdrefnau Athrofeydd a'u diweddaru'n flynyddol a chyflwynir adroddiad i Bwyllgor Moeseg y Brifysgol.

### 5.2 Traethawd Hir Ôl-raddedig a Addysgir

Yn achos traethodau hir a wneir ar gyrsiau ôl-raddedig a addysgir, y goruchwyliwr ymchwil ddylai fod yn gyfrifol am ystyriaethau moesegol, ynghyd â'r arweinydd modwl, a nhw ddylai gynghori'r myfyriwr yn unol ag arferion moesegol arferol a'r canllawiau a geir yn y Cod Ymarfer hwn. Ym mhob achos lle bydd modd i'r Athrofa roi cymeradwyaeth foesegol, rhaid anfon adroddiad blynyddol ymlaen i'r Pwyllgor Moeseg yn nodi teitlau traethodau hir, enwau myfyrwyr a datganiad byr yn cadarnhau na nodwyd unrhyw faterion moesegol. Y Swyddfa Academaidd fydd yn cadw hwn. Mewn achosion lle nodir problemau moesegol gan y goruchwyliwr, ac arweinydd modwl, dylid cyfeirio'r ffurflen Foeseg yn gyntaf at Bwyllgor Moeseg yr Athrofa a phe bai angen dylid ei chyfeirio wedyn ata Bwyllgor Moeseg y Brifysgol.

### 5.3 Graddau Ymchwil

Dylai'r myfyriwr a'r tîm goruchwylio gyfeirio pob darpar brosiect ymchwil, boed ar lefelau MPhil neu Ddoethuriaeth, at y Pwyllgor Moeseg i'w gymeradwyo ar ôl i'r ffurflen gynnig (PG1) gael ei chymeradwyo gan y Pwyllgor Graddau Ymchwil. Dylid gwneud hyn pa un a yw'r ymchwil yn cynnwys y cyfranogwyr a restrir yn Adran 3 (uchod) ai peidio, neu'n mynd i'r afael â'r themâu a'r pynciau, neu'n defnyddio'r dulliau a restrir yn Adran 3 ai peidio. Dylid cwblhau Ffurflen PG2/E1 Cais am Gymeradwyaeth Foesegol ym mhob achos a'i chyflwyno i'r Pwyllgor Moeseg. Mae'n ofynnol i'r holl fyfyrwyr ymchwil lenwi'r ffurflen hon. Cedwir copi o'r ffurflen hon yn y Swyddfa Academaidd. Ni ellir dechrau casglu data personol heb fod cymeradwyaeth wedi'i rhoi gan Bwyllgor Moeseg y Brifysgol a chyn i hynny ddigwydd.

### 5.4 Ymchwil Staff

Rhaid ceisio cymeradwyaeth foesegol ar gyfer unrhyw ymchwil a wneir gan staff PCYDDS sy'n cynnwys y cyfranogwyr a restrir yn Adran 3 (uchod), neu sy'n mynd i'r afael â'r themâu a'r pynciau, neu'n defnyddio'r dulliau a restrir yn Adran 3. Mae hyn yn ofynnol ar gyfer gwaith ymchwil mewnol/nas ariennir ac ar gyfer ymchwil lle dyfarnwyd cyllid allanol. Mewn achosion lle mae'r ymchwil yn ddibynnol ar sicrhau arian allanol, ni ddisgwylir fel arfer i'r prif ymchwilydd geisio cymeradwyaeth foesegol adeg cyflwyno cais, er bod hyn yn cael ei argymell mewn achosion risg uchel, megis ymchwil sy'n ymwneud ag ymchwil meddygol neu iechyd, unrhyw ddyfais feddygol heb nod CE, ymchwil sy'n ymwneud â gweithio gyda phlant, oedolion agored i niwed, neu a gynhelir mewn amgylcheddau peryglus (fel y nodir yn **Adran 8**). Yn ogystal, lle bo hyn yn amod y dyfarniad, rhaid i brosiectau ymchwil a ariennir yn

allanol gael cymeradwyaeth foesegol cyn i'r ymchwil ddechrau. Mae hyn yn cynnwys prosiectau a ariennir gan UKRI. Dylid cwblhau'r Ffurflen Gais am Gymeradwyaeth Foesegol (PG2/E1) ym mhob achos a'i chyflwyno i'r Pwyllgor Moeseg cyn dechrau casglu unrhyw ddata.
Er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaethau'r Brifysgol fel rheolydd data, rhaid ceisio cymeradwyaeth foesegol bob amser ar gyfer prosiectau sy'n prosesu data personol fel y nodir yn Adran 3 uchod. Mae hyn yn cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain:

- Unrhyw ymchwil a allai, neu a fydd yn, effeithio ar destun data o ran eu preifatrwydd a/neu eu hawliau fel testun data
- Unrhyw ymchwil sy'n defnyddio data categori arbennig
- Unrhyw ymchwil sy'n cynnwys plant a / neu oedolion sy'n agored i niwed
- Unrhyw ymchwil sydd ag elfen drawsffiniol
- Unrhyw ymchwil sy'n cynnwys rhannu data personol
- Unrhyw ymchwil lle mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith cynnal DPIA cyn y gall y prosesu ddechrau (a rhaid ymgynghori â'r Swyddog Diogelu Data).

Ni ellir dechrau casglu data personol heb fod cymeradwyaeth wedi'i rhoi gan Bwyllgor Moeseg y Brifysgol a chyn i hynny ddigwydd.

## 6. Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data

Mae GDPR y DU yn creu rhwymedigaeth gyfreithiol i ystyried a lliniaru materion diogelu data a phryderon am breifatrwydd adeg cynllunio prosiect, cyn y cesglir unrhyw ddata (e.e. diogelu data o'r cychwyn ac fel anghenraid). Mae Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data (DPIA) yn asesiad i helpu ymchwilwyr i ddynodi unrhyw risgiau posibl a allai fod gan brosiect o ran ymyrryd â phreifatrwydd cyfranogwyr. Mae'r Asesiad wedyn yn helpu i weithredu mesurau a rheolaethau priodol er mwyn lleihau a rheoli'r risgiau hynny. Mae'r ddeddfwriaeth wedi gwneud Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data yn orfodol ar gyfer prosesu data risg uwch er mwyn sicrhau bod diogelu preifatrwydd a data yn brif ystyriaethau o ddechrau unrhyw brosiect ac wedyn eu bod yn cael eu hystyried gydol cylch oes y prosiect. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd (Cyfarwyddiaeth Gyffredinol Ymchwil ac Arloesi) yn argymell y dylid cynnal DPIA ar gyfer mentrau prosesu data a allai achosi risgiau uwch o ran moeseg, megis y canlynol:

| | |
|---|---|
| **Mathau o ddata personol** | • Tras hiliol neu ethnig<br>• Barn wleidyddol, credoau crefyddol neu athronyddol<br>• Data genetig, biometrig neu iechyd<br>• Bywyd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol<br>• Aelodaeth o undeb llafur |
| **Testunau data** | • Plant<br>• Pobl sy'n Agored i Niwed<br>• Pobl nad ydynt wedi rhoi eu cydsyniad penodol i gymryd rhan yn y prosiect |
| **Graddfa neu gymhlethdod y prosesu data** | • Prosesu data personol ar raddfa fawr<br>• Monitro systematig ar raddfa fawr ar faes sy'n agored i'r cyhoedd<br>• Yn ymwneud â nifer o setiau data a/neu ddarparwyr gwasanaeth, neu'n cyfuno a dadansoddi setiau data gwahanol (h.y. data mawr) |
| **Technegau casglu neu brosesu data** | • Dulliau neu dechnolegau sy'n ymyrryd â phreifatrwydd (e.e. arsylwi'n gudd, gwylio, tracio neu dwyllo unigolion) |

| | |
|---|---|
| | • Defnyddio systemau camerâu i fonitro ymddygiad neu gofnodi gwybodaeth sensitif<br>• Cloddio data (gan gynnwys casglu data o rwydweithiau'r cyfryngau cymdeithasol), 'cropian drwy'r we' neu ddadansoddi rhwydweithiau cymdeithasol<br>• Proffilio unigolion neu grwpiau (yn enwedig proffilio ymddygiadol neu seicolegol)<br>• Defnyddio deallusrwydd artiffisial i ddadansoddi data personol<br>• Defnyddio gwneud penderfyniadau'n awtomataidd sy'n cael effaith sylweddol ar y testun(au) data |
| **Yn ymwneud â gwledydd y tu allan i'r UE** | • Trosglwyddo data personol i wledydd y tu allan i'r UE<br>• Casglu data personol y tu allan i'r UE |

Os yw'r ymchwil arfaethedig, a wneir ar unrhyw lefel (e.e. israddedig, ôl-raddedig, staff) yn cynnwys unrhyw rai o'r risgiau moesegol uwch hyn, rhaid cwblhau Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data (DPIA) a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Moeseg Ymchwil ynghyd â ffurflen PG2/E1 Cais am Gymeradwyaeth Foesegol. Caiff yr Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data ei ystyried gan Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol yn rhan o'r adolygiad Moeseg. Mae'r Asesiad ar gael yma:

Templed Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data.dotx (sharepoint.com)

## 7. Asesu Risg

Yn ogystal â chwblhau ffurflen PG2/E1 Cais am Gymeradwyaeth Foesegol, mae'n bosibl y bydd gofyn i rai ymchwilwyr gynnal asesiad risg llawn ac fe'u cyfeirir at Swyddogion Iechyd a Diogelwch y Brifysgol ar gyfer cyngor pellach. Yn yr achos hwn mae'n ofynnol i'r Swyddfa Academaidd gadw copi o'r Asesiad Risg. Fel canllaw, dylai ymgeiswyr ragdybio ei bod yn bosibl y bydd y Pwyllgor Moeseg yn gofyn am Ffurflen Asesu Risg os bydd y broses ymchwil yn ymwneud ag unrhyw un o'r canlynol:

- Risgiau Amgylcheddol
- Gweithio ar eich pen eich hun
- Risg o afiechyd neu anaf
- Defnyddio offer peryglus
- Ymdrin â'r cyhoedd
- Codi a chario
- Risgiau Cemegol / Biolegol
- Gweithio ar ddŵr neu'n agos at ddŵr
- Gwrthdaro arfog
- Aflonyddwch sifil
- Peryglon eraill

## 8. Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mae'n rhaid i ymchwilwyr sy'n gweithio ym maes iechyd neu ofal cymdeithasol gydymffurfio â fframwaith polisi'r DU ar gyfer ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol[1]. Mae'r fframwaith polisi hwn yn berthnasol i ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol sy'n cynnwys cleifion, defnyddwyr gwasanaethau neu eu perthnasau neu ofalwyr. Mae hyn yn cynnwys ymchwil sy'n ymwneud â nhw'n anuniongyrchol, er enghraifft defnyddio gwybodaeth mae'r GIG neu'r gwasanaethau gofal cymdeithasol wedi'i chasglu amdanynt. Dylai ymchwilwyr wirio a ddylai eu hymchwil gael adolygiad moeseg drwy'r Awdurdod Ymchwil Iechyd[2]. O dan Fframwaith Polisi'r DU, mae gan yr ymchwilydd, a hefyd y Brifysgol fel cyflogwr yr ymchwilydd, gyfrifoldebau diffiniedig. Yn ogystal â'r gweithdrefnau moeseg a amlinellir yma, cedwir cofnod o'r ddogfennaeth i ddangos cydymffurfedd â Fframwaith Polisi'r DU. Ni fydd angen i ymchwil sydd wedi'i gymeradwyo gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil y GIG drwy'r Gwasanaeth Moeseg Ymchwil Cenedlaethol (NRES) gael cymeradwyaeth Foesegol ychwanegol gan Bwyllgor Moeseg PCYDDS. Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Moeseg, gan ymgynghori â'r Pennaeth Datblygu Ymchwil, yn rhoi cadarnhad ysgrifenedig o gydymffurfedd ar ran y Brifysgol, fel sy'n ofynnol gan Fframwaith Polisi'r DU.

## 9. Diogelu plant

Bydd yn ofynnol i ymchwil ar unrhyw lefel (e.e. israddedig, ôl-raddedig, staff) sy'n cynnwys cyswllt fesul un neu gyswllt arall heb oruchwyliaeth â phlant gael gwiriad cyfredol manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer gwaith a wneir trwy'r Brifysgol. Gweler y canllawiau yn **Atodiad 2.**

## 10. Ymchwil Cydweithredol

Yn gynyddol caiff ymchwil ei gynnal ar y cyd ag amrywiaeth o sefydliadau'r sector cyhoeddus, preifat a thrydydd sector, ar lefelau cenedlaethol, Ewropeaidd a rhyngwladol. Yn unol â chanllawiau'r Cod Ymarfer hwn, rhaid i bob sefydliad gyflwyno'r cynnig ymchwil i'w systemau llywodraethu ei hun ac ni fydd ymchwil yn dechrau tan y bydd pob sefydliad yn fodlon fod yr holl faterion moesegol wedi'u datrys. Os mai PCYDDS yw'r sefydliad arweiniol, (e.e. yn achos grant a ariennir yn allanol, y brifysgol sy'n dal y contract ymchwil gyda'r contractiwr dyfarnu neu sy'n cyflogi'r prif ymchwilydd) bydd y Pwyllgor Moeseg yn ystyried y rhaglen ymchwil arfaethedig yn ei chyfanrwydd, yn hytrach na'r pecynnau gwaith hynny sy'n berthnasol i staff PCYDDS yn unig. Gan y ceisir osgoi dyblygu adolygiadau moeseg lle bo modd, os mai'r brifysgol sy'n cyflogi'r cyd-ymchwilydd/cyd-ymchwilwyr, neu sy'n arwain ar becynnau gwaith neu weithgareddau penodol, fel arfer dim ond ar gyfer yr ymchwil a wneir gan staff y Brifysgol y mae angen cymeradwyaeth foesegol. Er yr egwyddor o osgoi dyblygu, os bernir bod hynny'n briodol bydd Pwyllgor Moeseg PCYDDS yn ystyried goblygiadau moesegol yr ymchwil yn ei gyfanrwydd (ni waeth a oes cymeradwyaeth wedi'i rhoi eisoes yn allanol) ac ym mhob achos dylai'r ffurflen foeseg roi digon o fanylion am y prosiect ymchwil yn ei gyfanrwydd i ganiatáu adolygiad gwybodus llawn gan y Pwyllgor Moeseg.

Fel y nodwyd yn Adran 8, ni fydd angen i ymchwil sydd wedi'i gymeradwyo gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil y GIG drwy'r Gwasanaeth Moeseg Ymchwil Cenedlaethol (NRES) gael cymeradwyaeth Foesegol ychwanegol gan Bwyllgor Moeseg PCYDDS. Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Moeseg, gan ymgynghori â'r Pennaeth Datblygu Ymchwil, yn rhoi cadarnhad ysgrifenedig o gydymffurfedd ar ran y Brifysgol, fel sy'n ofynnol gan Fframwaith Polisi'r DU.

---

[1] https://s3.eu-west-2.amazonaws.com/www.hra.nhs.uk/media/documents/uk-policy-framework-health-social-care-research.pdf

[2] Am arweiniad pellach gweler: https://www.hra.nhs.uk/

Ym mhob achos, mae'n rhaid i ymchwilwyr gydymffurfio â'r rhwymedigaethau a nodwyd ym Mholisi Rheoli Data Ymchwil y Brifysgol ac ystyried priod rolau'r partïon o safbwynt rheolydd / prosesydd, os oes unrhyw elfen o gyd-reolaeth ac o ran a oes angen cytundebau rhannu data / prosesu data priodol. Dylid ymgynghori â'r Pennaeth Datblygu Ymchwil a'r Swyddog Diogelu Data ym mhob achos.

**11. Cynnal ymchwil y tu allan i'r DU**

Mewn cydweithrediadau rhyngwladol, dylai partneriaid gytuno i gynnal eu hymchwil yn ôl yr un safonau uchel o integredd ymchwil ag a ddisgwylir yn y DU ac i ymchwilio i unrhyw wyriad tybiedig oddi wrth y safonau hyn. Pan fo ymchwil i'w gynnal y tu allan i'r DU, rhaid i'r ymchwilydd ganfod a oes angen adolygiad moesegol lleol gan y wlad lle cynhelir yr ymchwil ac os na, sut y gellir dilyn egwyddorion y Cod Ymarfer Moeseg ac Integredd Ymchwil wrth ddatblygu ac ymgymryd â'r ymchwil. Mae'r safonau moesegol mae PCYDDS yn eu disgwyl ar gyfer ymchwil yn y DU yr un mor berthnasol i waith a wneir y tu allan i'r DU. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ymchwilwyr sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion cyfreithiol a moesegol yn y wlad/gwledydd lle cynhelir yr ymchwil. Adnodd defnyddiol yw Casgliad Rhyngwladol o Ymchwil Dynol Adran Iechyd a Gwasanaethau Dynol yr Unol Daleithiau[3].

Dylid cynnal pob gweithgarwch ymchwil ac arloesi rhyngwladol, pa un a yw wedi'i ariannu neu beidio, gan ddilyn Egwyddorion Ymchwil ac Arloesi Dibynadwy yr UKRA[4]. Mae'r egwyddorion hyn yn nodi'r disgwyliadau o ran diwydrwydd dyladwy ar gyfer cydweithredu rhyngwladol. Dylid gofyn am gyngor gan INSPIRE ynghylch:

- **Asesu Addasrwydd Partneriaid.** Rhaid cynnal asesiad diwydrwydd dyladwy priodol o sefydliadau partner cydweithredol ariannol ac anariannol posibl a/neu unigolion. Enghreifftiau o ffactorau y gellid eu hystyried wrth nodi risg yw natur gweithgarwch y prosiect a'r allbynnau a ragwelir; y potensial ar gyfer defnydd anfoesegol neu ddeuol o wybodaeth prosiect a/neu allbynnau; y potensial am dwyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth; a'r partneriaid cydweithredol.
- **Fframwaith Cyfreithiol a Chysylltiadau.** Mae angen dealltwriaeth o fframwaith cyfreithiol a chyfansoddiad y sefydliad partner a/neu'r wlad lle mae'n gweithredu, pwy y mae'n eiddo iddo ac a oes ganddo unrhyw gysylltiadau ffurfiol gydag endidau eraill megis busnesau eraill, adrannau'r llywodraeth neu'r fyddin. Os bydd unrhyw gysylltiadau'n achosi risg posibl i integredd y modd yr ymdrinnir â gwybodaeth neu allbynnau'r prosiect, yna dylid gweithredu mesurau lliniaru.
- **Gwerth.** Mae'n bwysig deall gwerthoedd democrataidd a moesegol y wlad y mae'r partner wedi'i leoli ynddi a lle gallai'r rhain fod yn wahanol i'n rhai ni.
- **Gwrthdaro Buddiannau.** Mae sicrhau ymwybyddiaeth ar lefel unigol o bobl sy'n rhyngweithio gyda PCYDDS yn hanfodol i asesu risgiau posibl yn gysylltiedig â diogelwch. Dylid ymgymryd â diwydrwydd dyladwy priodol i nodi gwrthdaro buddiannau cyfredol neu bosibl a achosir gan unigolion a fydd â mynediad ffisegol a/neu rithwir i PCYDDS drwy gyflogaeth, astudiaeth, cydweithrediad, ymweliadau neu fynediad at ddata.
- **Rheoli Gwybodaeth a Rhannu Gwybodaeth.** Rhaid prosesu'r holl ddata ymchwil ac eiddo deallusol yn unol â Pholisi Rheoli Data Ymchwil PCYDDS, Polisi Eiddo Deallusol Staff, a thrwy roi sylw dyledus i'r angen i ddiogelu gwybodaeth a rhannu gwybodaeth, sicrhau Seiberddiogelwch a rheoli mynediad. Rhaid storio data sensitif yn ddiogel ac, os defnyddir llwyfan a rennir i gyfnewid gwybodaeth, dylid gwahanu data'n rhesymegol i leoliadau gwahanol, fel mai dim ond unigolion awdurdodedig sy'n gallu eu cyrchu. Dylid rhoi mynediad at ddata sensitif i unigolion sydd ag angen clir am hynny yn unig,

[3] https://www.hhs.gov/ohrp/international/compilation-human-research-standards/index.html
[4] https://www.ukri.org/about-us/policies-standards-and-data/good-research-resource-hub/trusted-research-and-innovation/

am y cyfnod y mae angen mynediad o'r fath. Dylid nodi'r sail ar gyfer trin a defnyddio'r data yn glir naill ai mewn Cytundeb Cydweithredu neu Gytundeb Rhannu Data fel bod pob parti'n ei ddeall ac yn cytuno iddo cyn i wybodaeth gael ei rhannu.

- **Cymhwysiad Masnachol.** Dylai fod cytundebau cydweithredu ar waith i sicrhau bod data sensitif ac unrhyw asedau deallusol, yn cynnwys hawliau eiddo deallusol yn deillio o'r prosiect, yn cael eu rheoli'n briodol, yn enwedig lle bo potensial i allbynnau masnachol yn y dyfodol gael eu gwireddu a allai fod o fudd i gymdeithas a'r economi, gan gynnwys yn y DU.
- **Asedau Deallusol a Hawliau Eiddo Deallusol.** Dylid rheoli'r asedau deallusol gan gynnwys unrhyw eiddo deallusol yn deillio o'r prosiect mewn ffordd broffesiynol ac effeithiol. Gallai hyn gynnwys penderfynu pryd yw'r amser mwyaf priodol i geisio gwarchod eiddo deallusol sy'n deillio o'r prosiect ac wedi hynny sut i fanteisio arno, ei drosglwyddo, ei drwyddedu neu ei ledaenu i gynyddu ei effaith i'r eithaf.
- **Cyhoeddi Allbynnau Prosiectau.** Cyn unrhyw gydweithio, dylai pob partner gytuno'n ffurfiol pryd y gellir trefnu bod data sy'n berthnasol yn fasnachol / a neu'n sensitif a/neu ganfyddiadau sy'n deillio o'r prosiect ar gael yn gyhoeddus.
- **Rheolaethau Allforio.** Rhaid i bob gweithgarwch prosiect a dulliau o drin allbynnau prosiect gydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol o ran rheoli allforion ac unrhyw ofynion cyfreithiol eraill. Nod rheolaethau allforio'r DU yw cyfyngu ar allforio a throsglwyddo technoleg, gwybodaeth neu nwyddau strategol sensitif ac maent yr un mor gymwys i'r gymuned academaidd ag ydynt i unrhyw allforiwr arall. Mae offer ar gael i wirio unrhyw gyfyngiadau neu ofynion ynghylch trwyddedau rheoli allforion a dylid nodi y gallai methu â chydymffurfio â'r rheolaethau hyn arwain at gyflawni trosedd.[5]

## 12. Deddfwriaeth Diogelu Data

Dylid ymgymryd â phrosesu data ymchwil sy'n ofynnol i gynnal ymchwil yn a chan y Brifysgol yn unol â rhwymedigaethau'r Brifysgol fel Rheolydd Data o dan Ddeddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018 ("GDPR y DU"). Mae'r ddeddfwriaeth hon yn diffinio cyfrifoldeb y Brifysgol i sicrhau bod mesurau trefniadol a thechnegol priodol yn eu lle i ddiogelu data personol. Mae'r rhwymedigaethau cyfreithiol ar gyfer diogelu data mewn ymchwil wedi'u nodi ym Mholisi Rheoli Data Ymchwil y Brifysgol, y mae'n rhaid cyfeirio ato yn y broses adolygu Moeseg. I grynhoi, maent yn nodi ei bod yn rhaid rhoi sylw dyledus i'r canlynol wrth brosesu data personol:

- **Cyfreithlondeb:** Rhaid bod sail gyfreithlon dros brosesu data personol bob amser ac, yng nghyd-destun gweithgareddau ymchwil, sail gyfreithlon PCYDDS yw "cyflawni tasg a wneir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a ymddiriedwyd i'r rheolydd", a elwir yn 'dasg gyhoeddus'
- **Tegwch a thryloywder:** Rhaid prosesu data'n deg ac mewn modd tryloyw mewn perthynas â'r testun data
- **Cyfyngu ar Ddibenion:** Cesglir data personol at ddibenion amlwg a chyfreithlon sydd wedi eu nodi ac ni chânt eu prosesu ymhellach mewn modd sy'n anghyson â'r dibenion hynny
- **Lleihau data:** Mae data personol yn ddigonol, yn berthnasol ac yn gyfyngedig i'r hyn sy'n angenrheidiol yng nghyswllt y dibenion y cânt eu prosesu ar eu cyfer
- **Cywirdeb:** Mae data personol yn fanwl gywir a, phan fo angen, yn cael eu diweddaru; rhaid cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod data personol sy'n

[5] https://www.gov.uk/guidance/export-controls-applying-to-academic-research

anghywir, o ystyried y dibenion y cânt eu prosesu ar eu cyfer, yn cael eu dileu neu eu cywiro heb oedi
- **Cyfyngu ar storio:** Mae data personol wedi'u cadw ar ffurf sy'n ei gwneud yn bosibl adnabod testunau data am gyfnod nad yw'n hwy nag sy'n angenrheidiol at y dibenion y prosesir y data personol ar eu cyfer
- **Integredd a chyfrinachedd:** Mae data personol wedi'u prosesu mewn modd sy'n sicrhau diogelwch priodol y data personol, gan gynnwys defnyddio mesurau technegol neu drefniadol priodol i ddiogelu rhag eu prosesu heb awdurdod neu'n anghyfreithlon, a rhag eu colli, eu dinistrio neu eu difrodi'n ddamweiniol.

Wrth brosesu Data Ymchwil, rhaid i ymchwilwyr ddilyn y rhwymedigaethau sydd wedi'u nodi ym mholisi Rheoli Data Ymchwil PCYDDS. Rhestrir yn fanwl y rhwymedigaethau o dan Deddf Diogelu Data y DU (2018) a GDPR y DU, a darperir:

- Cyfarwyddyd ar sail gyfreithlon prosesu
- Cyfarwyddyd ar gynnal Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data
- Cyfarwyddyd ar y defnydd o hysbysiadau preifatrwydd / hysbysiadau preifatrwydd a gymeradwywyd, i'w defnyddio mewn cyd-destunau penodol
- Polisïau a gweithdrefnau rhannu data
- Polisïau a gweithdrefnau cadw data
- Polisïau a gweithdrefnau dinistrio data
- Canllawiau, polisïau a gweithdrefnau'n ymwneud â diogelwch data
- Cyfarwyddyd ar drosglwyddo data personol yn rhyngwladol
- Canllawiau, polisïau a gweithdrefnau ynghylch adrodd am dor diogelwch data
- Ceisiadau hawliau testun data

### 12.1 Y sail gyfreithlon dros brosesu data ymchwil personol

Rhaid bod sail gyfreithlon dros brosesu data personol bob amser ac, yng nghyd-destun gweithgareddau ymchwil, sail gyfreithlon PCYDDS yw "cyflawni tasg a wneir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a ymddiriedwyd i'r rheolydd", a elwir yn 'dasg gyhoeddus'. Gall y Brifysgol ddangos ei bod yn bodloni'r gofynion i ddefnyddio'r sail gyfreithlon hon dan ein Siarter Frenhinol, oherwydd nodau'r Brifysgol yw "symud addysg ymlaen a lledaenu gwybodaeth drwy addysgu, ysgolheictod ac ymchwil er budd y cyhoedd". Drwy ddefnyddio 'tasg gyhoeddus' yn sail gyfreithlon, gall y Brifysgol sicrhau, fel sefydliad a ariennir yn gyhoeddus, ei bod bob amser yn un o'n tasgau cyhoeddus swyddogol pan fyddwn yn defnyddio data personol gan bobl sydd wedi cytuno i gymryd rhan mewn ymchwil. Mae hefyd yn tawelu meddwl testunau data bod yr ymchwilwyr yn rhan o sefydliad ag enw da sydd â rhesymau dilys dros ddal a defnyddio data personol. Mae hyn yn ychwanegol at y rheolaeth a roddir i gyfranogwyr drwy broses gydsynio moeseg ymchwil.

### 12.2. Cydsyniad

Dan GDPR y DU, ni fydd y Brifysgol yn dibynnu ar gydsyniad fel y sail gyfreithlon dros brosesu data ymchwil. Mae hyn yn golygu, er bod angen i ymchwilwyr fel arfer gael cydsyniad cyfranogwyr i gymryd rhan mewn prosiectau ymchwil i fodloni gofynion moesegol, nid oes angen iddynt gael eu cydsyniad er mwyn prosesu eu data personol. Mae hyn oherwydd mai 'tasg gyhoeddus' yw sail gyfreithlon y Brifysgol dros brosesu data personol mewn gweithgareddau ymchwil. Felly mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng cydsyniad i brosesu data personol a phrosesau neu ofynion eraill o ran cydsyniad.

## 13. Eiddo Deallusol

Mae'n bwysig i ymchwilwyr ystyried a yw'n bosibl y bydd eu prosiect yn cynhyrchu Eiddo Deallusol a'u bod yn ymwybodol o bolisi'r Brifysgol ar Hawliau Eiddo Deallusol. Nodir y darpariaethau ar gyfer rheoli Eiddo Deallusol (ED) ym Mholisi Eiddo Deallusol y Brifysgol ar gyfer Aelodau'r Staff a'i Pholisi Eiddo Deallusol ar gyfer Myfyrwyr. Anogir y rhai sy'n ceisio cymeradwyaeth foesegol ar gyfer ymchwil i gysylltu ag INSPIRE i drafod y modd y rheolir ED pan fydd ED yn cael ei gynhyrchu trwy'r ymchwil. Mae hyn yn arbennig o bwysig os cyflawnir yr ymchwil arfaethedig gyda phartneriaid cydweithredol, os caiff ei ariannu, neu os oes ganddo botensial masnachol. Mewn achosion eraill, gallai materion cyfrinachedd godi, ac yn yr achos hwn bydd RIES yn cydlynu Cytundebau Peidio â Datgelu neu Gyfrinachedd priodol.

### 14. Yswiriant

Rhaid sicrhau bod yswiriant digonol yn narpariaethau yswiriant y Brifysgol ar gyfer yr holl ymchwil a gyflawnir gan staff a myfyrwyr y Brifysgol. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd polisi yswiriant y Brifysgol yn darparu yswiriant digonol a gwirir hyn yn rhan o'r broses gymeradwyo foesegol. Dylai'r ymchwilwyr fod yn ymwybodol, fodd bynnag, y gall gwaith ymchwil yn y sector iechyd (er enghraifft, gweithio gyda dyfeisiau meddygol, neu mewn lleoliadau clinigol, neu lle cyflawnir unrhyw ymyriad meddygol) ei gwneud yn ofynnol trefnu bod yswiriant ychwanegol ar gael. Yn yr achosion hyn, ni ddylai gwaith ymchwil ddechrau o gwbl nes bod cymeradwyaeth foesegol wedi ei rhoi. Cydlynir materion indemniad ar gyfer gwaith ymchwil gan INSPIRE ac efallai yr hoffai ymgeiswyr drafod indemniad cyn gwneud cais am gymeradwyaeth foesegol.

### 15. Cymeradwyaeth

Dylid cyflwyno ceisiadau am gymeradwyaeth foesegol i'w hystyried cyn gynted ag y bo modd. Rhaid cymeradwyo pob prosiect o safbwynt moesegol cyn y dechreuir gweithio ar y rhan honno o'r gwaith y ceisir cymeradwyaeth ar ei chyfer.

Os cymeradwyir prosiectau caiff y gwaith ymchwil fynd yn ei flaen. Bydd yr ymgeisydd ac, yn achos gwaith myfyrwyr, y goruchwyliwr[wyr] yn derbyn gohebiaeth i'r perwyl hwn gan y Pwyllgor Moeseg. Cymeradwyir prosiectau ar gyfer y broses ymchwil ar ei hyd ar yr amod eu bod yn cael eu hailgyflwyno pe bai natur yr ymchwil yn newid neu os canfyddir goblygiadau moesegol nas rhagwelwyd yn ystod y broses ymchwil.

Os cymeradwyir prosiectau yn amodol ar ddiwygiadau, caiff yr ymgeisydd a'r goruchwyliwr[wyr] neges i'r perwyl hwn sy'n nodi'r mân bwyntiau lle mae angen eglurhad. Dylid diwygio'r prosiect a'i ailgyflwyno i'r Pwyllgor Moeseg i'w gymeradwyo.

Os na chymeradwyir prosiectau am fod ynddynt ddiffygion mawr, caiff yr ymgeisydd a'r goruchwyliwr[wyr] lythyr gan y Pwyllgor Moeseg, sy'n nodi manylion y problemau y mae angen mynd i'r afael â nhw. Rhaid diwygio'r prosiect yn sylweddol a'i ailgyflwyno i'r Pwyllgor Moeseg i'w gymeradwyo. Os na chymeradwyir prosiect am fod ynddo ddiffyg mawr, os yw'r prosiect yn defnyddio data personol dylid ymgynghori â'r Swyddog Diogelu Data. Dylid cynnal DPIA newydd yn ogystal.

### 16. Adolygiad parhaus o bob prosiect ymchwil

Bydd staff sy'n ymgymryd ag ymchwil yn adolygu cyfranogiad cyfranogwyr, y cynnwys pynciol a ffynonellau data yn barhaus, ynghyd â'r dulliau a ddefnyddir o ran materion

moesegol parhaus ac annisgwyl. Caiff pob ymchwil ôl-raddedig a wneir ar gyfer graddau ymchwil ei adolygu am broblemau moesegol parhaus nas rhagwelwyd yn ystod gwahanol gyfnodau ymgeisyddiaeth gradd ymchwil:

- Adolygiadau cynnydd gyda'r tîm goruchwylio
- Cyflwyno cynnig ymchwil llawn
- Uwchraddio o MPhil / PhD (pan fo’n berthnasol)
- Cwblhau Cyfnod Prawf yn llwyddiannus (pan fo’n berthnasol)
- Adolygiad cynnydd blynyddol

Yn achos pob ymchwil, ar lefel israddedig, ôl-raddedig a staff, os bydd prosiectau y barnwyd yn wreiddiol nad oedd goblygiadau moesegol iddynt yn newid, a dimensiynau moesegol yn dod i’r amlwg yn sgil hynny, yna yn achos ymchwil a oruchwylir, cyfrifoldeb y goruchwylwyr prosiectau yw sicrhau y cyfeirir at, ac y dilynir, weithdrefnau craffu moesegol. Mewn achosion eraill, y staff sy’n gyfrifol am yr ymchwil sydd â’r cyfrifoldeb hwnnw.

Ym mhob achos rhaid rhoi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau niweidiol wrth gynnal prosiectau ymchwil i’r Pwyllgor Moeseg. Mewn achosion o’r fath rhaid i’r ymchwilydd, boed yn aelod o'r staff neu'n fyfyriwr, dynnu'n ôl o'r broses ymchwilio ar unwaith tan iddo ef/hi gael gwybod gan y Pwyllgor Moeseg fod y Brifysgol yn fodlon bod y cynllun ymchwil wedi'i newid mewn modd sy’n lleddfu niwed pellach. Dylai ymchwilwyr a thimau goruchwylio ymgynghori â’r Swyddog Diogelu Data a Chadeirydd y Pwyllgor Moeseg os bydd pryderon posibl neu wirioneddol yn codi o safbwynt cydymffurfedd diogelu data.

## 17. Camymddwyn mewn Ymchwil

Nodweddir camymddwyn mewn ymchwil fel ymddygiad neu weithredu sy’n syrthio’n fyr o’r safonau moeseg, ymchwil ac ysgolheictod sy’n ofynnol i sicrhau bod integredd ymchwil yn cael ei gynnal. Mae’n broblem oherwydd gall achosi niwed (er enghraifft i gleifion, y cyhoedd a’r amgylchedd), mae’n niweidio hygrededd yr ymchwil, yn tanseilio’r cofnod ymchwil ac yn gwastraffu adnoddau.

Mae’r Concordat i Gefnogi Integredd Ymchwil yn cydnabod bod rhyddid academaidd yn hanfodol i gynhyrchu ymchwil rhagorol. Golyga hyn fod y cyfrifoldeb o sicrhau nad oes camymddwyn yn digwydd yn gorwedd yn bennaf ar ysgwyddau ymchwilwyr unigol. Fodd bynnag, mae gan y Brifysgol fel cyflogwr ymchwilwyr rôl weithredol i’w chwarae o ran cynnal integredd ymchwil fel y nodir yn y Cod Ymarfer hwn. Mae sawl ffurf o gamymddwyn mewn ymchwil, yn cynnwys:

- **Dweud celwydd**: dyfeisio canlyniadau ffug neu gynnyrch ffug eraill (e.e. arteffactau) a’u cyflwyno fel petaent yn real
- **Ffugio**: camddefnyddio prosesau ymchwil neu newid neu hepgor data heb achos da
- **Llên-ladrad:** defnyddio deunydd pobl eraill heb roi clod priodol iddynt
- **Methu â bodloni ymrwymiadau moesegol, cyfreithiol a phroffesiynol**: er enghraifft methu â datgan buddiannau sy’n cystadlu â’i gilydd; cam-gyfleu cyfraniad neu awduraeth; cam-gyfleu buddiannau; torri cyfrinachedd; diffyg cydsyniad gwybodus; camddefnyddio data personol; a cham-drin gwrthrychau neu ddeunyddiau ymchwil
- **Ymdrin yn amhriodol â honiadau o gamymddwyn**: methu â mynd i’r afael â throseddau posibl megis ymdrechion i guddio camymddwyn a dial yn erbyn chwythwyr chwiban

Ni fwriedir i'r rhestr hon gynnwys popeth. Nid yw camgymeriadau onest a gwahaniaethau, er enghraifft, mewn methodoleg ymchwil a dehongliadau, yn enghreifftiau o gamymddwyn mewn ymchwil.

**17.1 Ymdrin â Honiadau o Gamymddwyn mewn Ymchwil: Graddau Israddedig, Ôl-raddedig a Addysgir a Graddau Ymchwil Ôl-raddedig**

Mae'r gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â honiadau o gamymddwyn mewn ymchwil mewn rhaglenni israddedig ac ôl-raddedig a addysgir a rhaglenni ymchwil ôl-raddedig wedi eu nodi ym Mholisi Camymddwyn Academaidd PCYDDS, y dylid ei ddilyn ym mhob achos.

**17.2 Ymdrin â Honiadau o Gamymddwyn mewn Ymchwil: Staff**

**Egwyddorion**

- Caiff honiadau o gamymddwyn mewn ymchwil:
  - eu trin yn sensitif ac yn gyfrinacholeu hymchwilio'n deg, yn drylwyr ac yn amserol
  - eu hymchwilio gan ddefnyddio Gweithdrefn Ymchwilio i Gamymddwyn mewn Ymchwil Swyddfa Integredd Ymchwil y DU (UKRIO)
- Mae gan weithwyr yr hawl i fynd â chynrychiolydd undeb llafur neu gydweithiwr yn y gweithle gyda nhw i gyfarfodydd ffurfiol. Mae gan achwynwyr neu atebyddion yr hawl i dynnu sylw at unrhyw wrthdaro buddiannau sy'n bodoli, yn eu tyb nhw, o ran unrhyw un sy'n ymwneud â'r broses ymchwilio, gydag ystyriaeth yn cael ei roi hynny.
- Bydd gweithwyr sy'n gwneud honiadau o gamymddwyn mewn ymchwil yn y gred resymol y gallai camymddwyn fod wedi digwydd yn cael eu cefnogi ac ni fyddant yn wynebu unrhyw anfantais
- Mae gan unrhyw un a gyhuddir o gamymddwyn mewn ymchwil yr hawl i gael ei ystyried yn ddiniwed
- Ni ryddheir gwybodaeth am yr honiad na manylion ynghylch pwy sydd dan sylw i drydydd partïon tan ei bod yn rhaid i'r Brifysgol wneud hynny.

**17.3 Adrodd ynghylch Honiadau o Gamymddwyn mewn Ymchwil**
Dylai unrhyw un sydd â phryderon ynghylch trylwyredd ac integredd yr ymchwil a wneir yn y Brifysgol roi gwybod i Berson a Enwir ynglŷn â'r pryderon hyn. Petai pryderon yn cael eu codi trwy ryw ddull arall, megis Polisi Chwythu'r Chwiban y Brifysgol, bydd y sawl sy'n derbyn y pryderon hynny'n rhoi gwybod amdanynt i'r Person priodol a Enwir. Y Person a Enwir o fewn PCYDDS fydd y Cyfarwyddwr Profiad Academaidd. Y deiliad swydd presennol yw:

- Yr Athro Kyle Erickson
- E-bost: k.erickson@uwtsd.ac.uk

**17.4 Gweithdrefn Ymchwilio i Honiadau o Gamymddwyn mewn Ymchwil**
Ymdrinnir â honiadau o gamymddwyn mewn ymchwil yn unol â Gweithdrefn Ymchwilio i Gamymddwyn mewn Ymchwil Swyddfa Integredd Ymchwil y DU (*yn amodol ar gymeradwyaeth AD*).[6]

[6] https://ukrio.org/wp-content/uploads/UKRIO-Procedure-for-the-Investigation-of-Misconduct-in-Research.pdf

a) **Y Camau Cyntaf:** Mae'r Person a Enwir yn cael manylion yr honiad o gamymddwyn mewn ymchwil, yn mynd i'r afael ag unrhyw risgiau uniongyrchol, yn rhoi gwybod i uwch reolwyr allweddol am yr honiad, ac yn rhoi gwybod i'r unigolyn (yr Atebydd) am yr honiad a'r camau nesaf.
b) **Panel Sgrinio:** mae'r Person a Enwir yn penderfynu a yw'r honiadau'n anghywir, yn ddisylwedd, yn flinderus a/neu'n faleisus; os nad ydynt, mae'r Person a Enwir yn penodi aelodau panel (a allai fod yn staff mewnol neu'n benodiadau allanol) i benderfynu a oes unrhyw dystiolaeth o gamymddwyn mewn ymchwil; lle bo hynny'n ofynnol yn ôl y contract, bydd yn hysbysu trydydd partïon, e.e. cynghorau ymchwil, am yr honiad heb ddatgelu pwy yw'r atebydd. Mae'r Panel Sgrinio'n cyfweld yr achwynydd a'r atebydd ac yn hysbysu'r Person a Enwir bod tystiolaeth o gamymddwyn mewn ymchwil ac a ydynt yn argymell symud ymlaen at Ymchwiliad Ffurfiol. Mae'r Person a Enwir yn diweddaru pob parti perthnasol ynghylch canlyniad y broses Sgrinio, gan gynnwys, lle bo'n ofynnol yn ôl y contract, trydydd partïon megis cyrff cyllido.
c) **Ymchwiliad Ffurfiol:** Mae'r Person a Enwir, gan gymryd cyngor gan y Pennaeth AD, yn penodi Panel sy'n cynnwys o leiaf ddau uwch aelod o staff y Brifysgol ac un aelod allanol i ymchwilio i'r honiad. Ymchwilir yn llawn i'r honiad, a fydd yn cynnwys cyfweliadau gyda'r Achwynydd, yr Atebydd a phartïon perthnasol eraill. Mae'r Person a Enwir yn diweddaru'r holl bartïon perthnasol ynghylch casgliadau'r Panel, a allai, yn achos aelod presennol o staff, arwain at Wrandawiad Disgyblu.
d) **Polisi Disgyblu:** Os oes achos i'w ateb yna dilynir polisïau a gweithdrefnau disgyblu'r Brifysgol.

**17.5 Ymchwil ar draws Sefydliadau**
Pe bai honiad o gamymddwyn yn cynnwys unigolion o sefydliadau heblaw Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, bydd y Person a enwir yn cysylltu â'u cymheiriaid yn y sefydliad(au) eraill i gytuno:

- a ddylid enwebu un sefydliad fel y sefydliad arweiniol i ymchwilio i'r honiadau, ynteu a fydd pob sefydliad yn cael ei ymchwilio ar wahân, a
- sut bydd pob sefydliad yn cymryd rhan yn y broses (er enghraifft, drwy ddarparu aelodau panel).

**17.6 Adrodd i Drydydd Partïon**
Pan fo hynny'n ofynnol yn ôl y contract, rhaid hysbysu trydydd partïon, megis Cynghorau Ymchwil, ynglŷn â honiadau o gamymddwyn mewn ymchwil ar ddechrau Cam Sgrinio gweithdrefn yr UKRIO, a'u diweddaru ar bob cam dilynol. Yn dilyn ymchwiliad, os oes honiad o gamymddwyn mewn ymchwil wedi'i gadarnhau, bydd y Person a Enwir yn hysbysu pob trydydd parti perthnasol (er enghraifft, golygyddion cyfnodolion y mae'r atebydd wedi cyhoeddi erthyglau ynddynt er mwyn cywiro'r cofnod ymchwil).

**18. Monitro**

Wrth fodloni gofynion y Concordat, bydd y Brifysgol yn cymryd camau i sicrhau bod y Cod Ymarfer hwn yn cael ei weithredu, a thrwy wneud hynny bydd yn:

- cyfrannu at amgylchedd ymchwil sy'n hyrwyddo ac yn ymgorffori ymrwymiad i integredd ymchwil,
- adolygu ei phrosesau yn gyfnodol i sicrhau eu bod yn parhau'n addas i'r diben,
- sicrhau bod prosesau addas yn eu lle i ddelio â chamymddwyn.

Gwneir yr ymrwymiad i foeseg ac integredd ymchwil yn Strategaeth Ymchwil ac Arloesi'r Brifysgol, ac mae'r gwaith o'i gyflawni'n cael ei oruchwylio gan y Pwyllgor Ymchwil. Mae'r Pwyllgor yn derbyn adroddiadau gan y Pwyllgor Moeseg fel eitem sefydlog ar bob agenda, a chaiff Perfformiad yn erbyn y Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Integredd Ymchwil (Atodiad 7 y Strategaeth Ymchwil ac Arloesi) ei fonitro ym mhob pwyllgor a chyflwynir adroddiad wedyn i'r Senedd a'r Cyngor. I hyrwyddo atebolrwydd pellach, bydd y Brifysgol yn llunio Adroddiad blynyddol ar Integredd Ymchwil, a gaiff ei gyflwyno i Gyngor y Brifysgol, ac a fydd ar gael wedyn i'r cyhoedd ar wefan PCYDDS ar y dudalen we ganlynol: https://www.uwtsd.ac.uk/research/research-ethics/

**19. Camddefnydd o'r Cod Ymarfer**
Gallai methu â dilyn y Cod Ymarfer ar adolygu ymchwil yn foesegol arwain at gamau disgyblu. Os daw unigolyn yn ymwybodol y dylid bod wedi gofyn am gymeradwyaeth foesegol, dylid cyflwyno ffurflen cyn gynted ag y bo modd, gydag esboniad ynghylch y rhesymau dros gyflwyno'n hwyrach. Os daw'r Pwyllgor Moeseg i wybod bod ymchwil yn cael ei wneud yn groes i'r Cod Ymarfer, gellir datrys y mater, mewn achosion perthnasol, drwy drafodaeth anffurfiol gyda'r ymchwilwyr a hwythau'n cymryd camau adferol. Fodd bynnag, pan fo angen, gellir cyflwyno'r mater yn ffurfiol i Bwyllgor Moeseg y Brifysgol. Caiff y mater ei adrodd i Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol os ystyrir y bu tor diogelwch data personol neu y gallai hynny fod wedi digwydd o ganlyniad i'r ymchwil anawdurdodedig, neu fod data personol wedi'i brosesu'n anghyfreithlon neu y gallai hynny fod wedi digwydd o ganlyniad i'r ymchwil anawdurdodedig. Yn y pen draw gall diffyg cydymffurfio na ellir ei ddatrys drwy'r sianeli y soniwyd amdanynt yn flaenorol ddod yn fater disgyblu. Cyfeiriwch hefyd at **Adran 17** ynghylch gweithdrefnau'r Brifysgol ar gyfer ymdrin ag achosion a amheuir o Gamymddwyn mewn Ymchwil.

**20. Cysylltiadau â pholisïau / gweithdrefnau eraill**

**Strategaeth Ymchwil ac Arloesi PCYDDS**
*Yn aros am gymeradwyaeth*

**Polisi Rheoli Data Ymchwil PCYDDS**
https://www.uwtsd.ac.uk/cy/llyfrgell/mynediad-agored-ac-ymchwil/rheoli-data-ymchwil/ynglyn-a-rhdy/

**Polisi Eiddo Deallusol Staff PCYDDS**
www.uwtsd.ac.uk/media/uwtsd-website/content-assets/documents/strategies-policies/2.1-Staff-Intellectual-Property-Policy.pdf

**Polisi Eiddo Deallusol Myfyrwyr PCYDDS**
www.uwtsd.ac.uk/media/uwtsd-website/content-assets/documents/academic-office/aqh-chapters/chapters---en/Intellectual-Property-Policy-Students-Final.pdf

**Polisi Camymddwyn Academaidd PCYDDS**
www.uwtsd.ac.uk/media/uwtsd-website/content-assets/documents/academic-office/aqh-chapters/chapters---en/Academic-Misconduct-Policy-02-2020.pdf

**Polisi Chwythu'r Chwiban PCYDDS**
https://uowtsd.sharepoint.com/HR/Shared%20Documents/Forms/AllItems.aspx?id=%2FHR%2FShared%20Documents%2FPolicies%20and%20Procedures%20%2D%20Polis%C3%A

Fau%20a%20Gweithdrefnau%2FGeneral%20HR%20Policies%20and%20Procedures%20%2D%20Polis%C3%AFau%20a%20Gweithdrefnau%20AD%20Cyffredinol%2FWhistleblowing%20Policy%2Epdf&parent=%2FHR%2FShared%20Documents%2FPolicies%20and%20Procedures%20%2D%20Polis%C3%AFau%20a%20Gweithdrefnau%2FGeneral%20HR%20Policies%20and%20Procedures%20%2D%20Polis%C3%AFau%20a%20Gweithdrefnau%20AD%20Cyffredinol

**Atodiad 1:**

**Crynodeb o Egwyddorion ar gyfer cynnal ymchwil moesegol a phrosesu data cyfreithiol**

**1. Crynodeb**

Mae'r canlynol yn grynodeb o'r egwyddorion arweiniol y bydd Athrofeydd a Phwyllgor Moeseg y Brifysgol yn cyfeirio atynt wrth wneud eu penderfyniadau. Nid yw wedi'i fwriadu i gynnwys popeth, ac o reidrwydd, bydd angen i Athrofeydd gyfeirio at normau a chonfensiynau'u disgyblaethau'u hun wrth ddod i unrhyw benderfyniad. Yn ogystal, rhaid i Athrofeydd, a staff, gydymffurfio â Deddfwriaeth Diogelu Data a nodwyd ym Mholisi Rheoli Data Ymchwil PCYDDS.

Yn anad dim, dylid cofio bod integredd unrhyw ymchwil yn dibynnu nid yn unig ar ei drylwyredd gwyddonol, ond hefyd ar ei ddigonolrwydd moesegol. Mae materion moesegol yn niferus ac yn amrywiol, a gallant fod yn eithaf cymhleth. Mae ymchwil sy'n cynnwys cyfranogwyr dynol yn cael ei wneud gan lawer o ddisgyblaethau gwahanol ac yn cael ei gyflawni mewn ystod eang o leoliadau a sefydliadau. Er bod rhai materion yn benodol i grwpiau proffesiynol, dylai pob ymchwil gael ei arwain gan set o egwyddorion moesegol sylfaenol er mwyn sicrhau diogelu cyfranogwyr dynol. Yn sail i'r safonau mae'r gorchmynion moesegol 'osgoi gwneud niwed' (anfaleistra) a 'gwneud daioni' (buddioldra). Mae angen i ymchwilwyr gloriannu risgiau yn erbyn buddion. Mewn ymchwil meddygol, mae'n hawdd diffinio gweithdrefnau sy'n ymwthio'n gorfforol, ond weithiau mewn ymchwil cymdeithasol mae'r hyn sy'n ffurfio risg yn llai eglur. Gall arsylwi, holiaduron a chyfweliadau, bob un, gynnwys y posibilrwydd o fod yn ymwthiol a pheri pryder i gyfranogwyr, neu yn waeth na hynny, peri risg seicolegol. Mae'n bwysig meddwl yn ofalus am effaith debygol unrhyw ddulliau casglu data ar gyfranogwyr. Mae rhai grwpiau'n arbennig o agored i niwed, a gallant blygu i bwysau, er enghraifft myfyrwyr, plant neu bobl ag anableddau dysgu. Ni all rhai cyfranogwyr roi cydsyniad gwybodus ac felly maent yn llai abl i'w hamddiffyn eu hunain, er enghraifft pobl â dementia. Gall rhai gweithgareddau ymchwil fod mor anymwthiol fel nad oes angen cydsyniad unigol, megis rhai astudiaethau sy'n seiliedig ar gymunedau.

Datblygwyd y safonau canlynol er mwyn rhoi canllawiau i staff a myfyrwyr sy'n ymgymryd ag ymchwil sy'n cynnwys cyfranogwyr dynol. Fe'u bwriedir i gwmpasu egwyddorion cyffredinol, ond efallai na fyddant yn mynd i'r afael â phob sefyllfa, a dylai'r ymchwilydd geisio cyngor pellach gan Swyddog Moeseg Ymchwil ei Ysgol, Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol a chod ymddygiad ei broffesiwn ar foeseg ymchwil fel y bo'n briodol. Yn gyffredinol, dylai ymchwilydd y Brifysgol fynd i'r afael â'r canlynol:

- **Buddioldra**: 'gwneud daioni'
- **Anfaleistra:** 'osgoi gwneud niwed'
- **Hawliau:** Diogelu buddiannau cyfranogwyr

- **Rheoli Risg:** Sicrhau diogelwch a risg cyfranogwyr ac ymchwilwyr: h.y. yr angen i osgoi niwed neu niwed posibl.
- **Cymesuredd:** Ystyried effaith y gwaith ar bobl eraill a diogelu rhag hynny lle bo angen
- **Sicrhau cysyniad gwybodus:** h.y. yr angen i roi gwybod i gyfranogwyr am nodau a gweithdrefnau'r ymchwil a sicrhau eu cydsyniad i gymryd rhan ar sail y wybodaeth hon (er na ddylai hyn fod yn sail gyfreithlon ar gyfer prosesu data ymchwil o dan y Ddeddf Diogelu Data a GDPR y DU)
- **Osgoi twyll:** h.y. yr angen i osgoi twyll wrth roi gwybod i gyfranogwyr am yr ymchwil, neu er mwyn cyfiawnhau'r angen am dwyll lle bo angen
- **Darparu adborth:** h.y. yr angen i roi gwybodaeth ychwanegol i gyfranogwyr i'w cynorthwyo ar ôl cymryd rhan yn yr ymchwil, a/neu ddarparu gwybodaeth gywir os oedd angen twyllo'n wreiddiol
- **Caniatáu tynnu'n ôl o ymchwiliad:** h.y. yr angen i roi gwybod i gyfranogwyr am eu hawl i dynnu'n ôl o'r ymchwil ar unrhyw adeg, gan gynnwys yn ystod neu ar ddiwedd eu cyfranogiad
- **Sicrhau cyfrinachedd:** h.y. yr angen i sicrhau cyfranogwyr na ddatgelir y wybodaeth a ddarperir ganddynt i eraill heb ganiatâd o flaen llaw ac eithrio yng nghyd-destun eu hymchwil, neu o leiaf gwneir hynny heb eu henwi
- **Diogelwch data ac archifo:** h.y. sicrhau bod data ymchwil yn cael eu cadw'n ddiogel yn gydnaws â gofynion y Ddeddf Diogelu Data a'u bod yn cael eu harchifo mewn modd a fydd yn sicrhau y bydd yn hygyrch at ddibenion archwilio yn y dyfodol. Dylid rhoi sylw arbennig i ofynion cyrff cyllido o ran cyflwyno data ymchwil i gadwrfeydd agored.

### 2. Cyfrifoldebau i gyfranogwyr ymchwil

Mae ymchwilwyr yn ffurfio perthynas bersonol a moesol â'r rheini y maent yn eu hastudio a dylent ymdrechu i amddiffyn eu hawliau. Mae gan ymchwilwyr gyfrifoldeb i sicrhau nad yw'r ymchwil yn effeithio'n andwyol ar les corfforol, cymdeithasol a seicolegol y cyfranogwr. Felly, er bod ymchwilwyr wedi ymrwymo i ddatblygu gwybodaeth, nid yw nod yr ymchwil yn rhoi'r hawl i anwybyddu hawliau pobl eraill. Lle bynnag y bo modd, dylai ymchwilwyr geisio gwneud y canlynol:

- Sicrhau yr amharir cyn lleied ag y bo modd ar y rheini sy'n cymryd rhan yn yr ymchwil ac ar eu perthynas â'u hamgylchedd a'r sawl sy'n rheoli mynediad at y cyfranogwyr - gan y bydd y berthynas rhwng y rhain yn parhau yn hir ar ôl i'r ymchwilydd ymadael
- Rhagweld ac amddiffyn rhag canlyniadau y gellir rhagfynegi y byddant yn niweidiol i gyfranogwyr ymchwil a cheisio rhagweld yr effeithiau hirdymor ar unigolion neu grwpiau o ganlyniad i'r ymchwil
- Cymryd gofal arbennig pan fydd cyfranogwyr ymchwil yn arbennig o agored i niwed yn rhinwedd eu hoedran, eu statws cymdeithasol a'u diymadferthedd
- Troi at ymchwil cudd dim ond pan fo'n amhosibl defnyddio dulliau eraill i gael data hanfodol (mewn astudiaethau o'r fath mae'n bwysig diogelu anhysbysrwydd cyfranogwyr ymchwil)
- Cymryd gofal i osgoi ffugio neu gam-gyfleu tystiolaeth, data, canfyddiadau neu gasgliadau
- Egluro wrth gyfranogwyr i ba raddau y cânt weld trawsgrifiadau o unrhyw gyfweliadau a nodiadau maes a newid cynnwys neu ddehongliad y data.

### 3. Buddioldra ac Anfaleistra

Mae termau megis risg, niwed a pheryglon yn cynnwys gwewyr emosiynol a meddyliol, niwed posibl i statws ariannol a chymdeithasol, a niwed corfforol. Mewn egwyddor:

- Dylai'r ymchwil fod yn fethodolegol gadarn gyda'r nod o gyfrannu i wybodaeth

- Dylid cynnal yr ymchwil a'i oruchwylio gan rai sydd â chymwysterau a phrofiad priodol
- Dylai pwysigrwydd yr amcan fod yn gymesur â'r risg cynhenid i'r gwrthrych. Rhaid i bryder am fuddiannau'r gwrthrych gael blaenoriaeth bob tro ar fuddiannau gwyddoniaeth a chymdeithas
- Cyn yr ymchwil dylid asesu'n ofalus risgiau y gellid eu rhagfynegi o'u cymharu â manteision y gellir eu rhagweld i'r gwrthrych neu i eraill
- Ni ddylid cynnal ymchwil os credir nad oes modd rhagfynegi'r peryglon cysylltiedig
- Dylai cyfleusterau a gweithdrefnau digonol fod yn eu lle i ymdrin ag unrhyw beryglon posibl.

## 4. Cydsyniad

### 4.1 Y Sail Gyfreithlon ar gyfer Prosesu Data

Dan GDPR y DU, ni fydd y Brifysgol yn dibynnu ar gydsyniad fel y sail gyfreithlon dros brosesu data ymchwil. Mae hyn yn golygu, er bod angen i ymchwilwyr fel arfer gael cydsyniad cyfranogwyr i gymryd rhan mewn prosiectau ymchwil i fodloni gofynion moesegol, nid oes angen iddynt gael eu cydsyniad er mwyn prosesu eu data personol. Mae hyn oherwydd mai 'tasg gyhoeddus' yw sail gyfreithlon y Brifysgol dros brosesu data personol mewn gweithgareddau ymchwil, fel y nodir isod. Gweler Polisi Rheoli Data Ymchwil PCYDDS sydd ar gael ar y wefan ganlynol: https://www.uwtsd.ac.uk/cy/llyfrgell/mynediad-agored-ac-ymchwil/rheoli-data-ymchwil/ynglyn-a-rhdy/

### 4.2 Cydsyniad Gwybodus (Oedolion)

Bernir gan amlaf y dylai oedolion cymwys yn eu hiawn bwyll gael penderfynu drostynt eu hunain. O ganlyniad, mae parch at hawl yr unigolyn i ddewis yn greiddiol i ymchwil moesegol. Mae sicrhau cydsyniad gwybodus yn elfen hanfodol o ymchwil cymdeithasol sy'n ddilys yn foesegol. Mae tair egwyddor sylfaenol yn berthnasol felly. Mae angen i gydsyniad fod yn:

- Wybodus – wedi'i roi gan wybod a deall y brif wybodaeth berthnasol.
- Gwirfoddol – wedi'i roi yn ewyllysgar yn hytrach nag o ganlyniad i bwysau gormesol (go iawn neu ymddangosiadol);
- Cymwys – wedi'i roi gan rywun â'r gallu, yn sgil eu hoedran, eu haeddfedrwydd a'u sefydlogrwydd meddyliol, i wneud dewis ystyriol o'u gwirfodd.

Yn fwy penodol, mae angen sicrhau bod y darpar gyfranogwr ymchwil yn gwbl ymwybodol o'r canlynol ac yn eu deall yn llawn:

- Am beth mae'r ymchwil yn sôn
- Pam mae'n cael ei gynnal
- Ar ran pwy mae'n cael ei gynnal a phwy sy'n ei ariannu
- Beth yw diben yr astudiaeth a beth fydd yn digwydd i'r canlyniadau
- Ble bydd y canlyniadau'n ymddangos a phwy sy'n debygol o gael eu gweld
- Beth fydd yn ddisgwyliedig ganddynt os byddant yn cytuno i gymryd rhan, a pha mor hir y bydd angen iddynt gymryd rhan
- Beth mae anhysbysrwydd a chyfrinachedd yn eu golygu'n ymarferol a dealltwriaeth nad oes *rhaid* i'r cyfranogwr gymryd rhan; ac ar ôl cytuno i gymryd rhan gall dynnu'n ôl ar unrhyw adeg heb golled.

Yn ymarferol felly dylai ymchwilwyr sicrhau eu bod yn ateb y gofynion canlynol:

- Dylai pob darpar wrthrych gael gwybod yn briodol am nodau, dulliau, manteision disgwyliedig a pheryglon posibl yr ymchwil ac unrhyw bryder a allai ddeillio ohono
- Rhaid i unrhyw ddogfennau a roddir i gyfranogwyr posibl fod yn ddealladwy a dylai fod cyfle iddynt godi unrhyw bryderon
- Dylid sicrhau cydsyniad yn ysgrifenedig a dylid cadw cofnodion o'r cydsyniad
- Rhaid rhoi gwybod i ddarpar gyfranogwyr eu bod yn rhydd i dynnu eu cydsyniad yn ôl ar unrhyw adeg
- Dylai fod gweithdrefn ar gyfer gwneud cwynion a dylid gwneud cyfranogwyr yn ymwybodol o hyn
- Dylai pob cyfranogwr fod yn wirfoddolwr. Dylid cymryd gofal sylweddol wrth ofyn am gydsyniad gan y rheini sydd mewn sefyllfa ddibynnol, a dylid ei gwneud yn glir na fydd gwrthod cymryd rhan yn arwain at unrhyw ganlyniadau andwyol. Er enghraifft, rhaid i fyfyrwyr gael sicrwydd na fydd unrhyw benderfyniad i beidio â chymryd rhan yn amharu mewn unrhyw fodd ar eu cynnydd academaidd
- Dylid datgan unrhyw gymhelliad a gynigir i gyfranogwyr.
- Rhaid cael cydsyniad gan warcheidwad cyfreithiol yn achos plant dan oed ac unrhyw rai eraill nad oes ganddynt y cymhwyster cyfreithiol i roi cydsyniad gwybodus.
- Mae gofyn i gyfranogwyr lofnodi ffurflen gydsynio ysgrifenedig yn ddull cyffredin o sicrhau cydsyniad gwybodus. Yn ogystal â sicrhau bod cyfranogwyr yn cytuno i gymryd rhan o'u gwirfodd a'u bod yn deall yr hyn y maent ar fin ymwneud ag ef, mae bodolaeth dogfen wedi'i llofnodi yn amddiffyn yr ymchwilydd rhag cyhuddiadau gan gyfranogwyr yn ddiweddarach.

### 4.4 Cydsyniad Gwybodus (Plant)

- Gall pobl ifanc 16-18 oed â dealltwriaeth ddigonol roi eu cydsyniad llawn i gymryd rhan mewn ymchwil yn annibynnol ar eu rhieni a'u gwarcheidwaid.
- Os yw'r ymchwil yn cynnwys plant dan 16 oed dylid cael cydsyniad gan rieni neu'r rhai sy'n gweithredu yn lle rhieni (*in loco parentis*). Fodd bynnag, byddai'n dra dymunol pe bai'r plant eu hunain yn cymryd rhan weithredol yn y broses o gydsynio. Gellir dadlau y gall plant fod yn bartneriaid mewn ymchwil a bod ganddynt hawliau i dderbyn gwybodaeth, derbyn gwrandawiad ac ystyriaeth o'u dymuniadau a'u teimladau, ac i roi neu atal cydsyniad os bernir eu bod yn gymwys i wneud hynny. O'r safbwynt hwn, gall tybiaethau am y diffyg cymhwysedd i roi cydsyniad gwybodus weithredu i atal plant rhag cael cyfleoedd gwerthfawr i gymryd rhan, a thrwy hynny erydu eu hawliau a'u cau nhw allan o brosesau datblygu cyd-ddealltwriaeth o berthnasau cymdeithasol. Gall felly fod yn briodol ceisio cydsyniad gan rieni'r plant sy'n cymryd rhan *a'r* plant eu hunain. Fodd bynnag, os ceir cydsyniad gan yr oedolyn perthnasol ond bod y plentyn yn amlwg yn atal cydsyniad neu'n dangos gofid, dylai dymuniadau'r plentyn gael blaenoriaeth. Mae angen rhoi sylw gofalus i ystyriaethau ymarferol wrth alluogi plant i gyfranogi mewn modd ystyrlon, gan gynnwys defnyddio taflenni gwybodaeth a ffurflenni cydsynio wedi'u hysgrifennu mewn ffordd hwylus i blant eu deall.
- Gall un rhiant roi cydsyniad, ond byddai'n well cael cydsyniad gan y ddau.
- Dylid ceisio arweiniad pellach o Ganllawiau BERA.

### 4.5 Eithriadau

Ceir adegau pan gall cydsyniad gwybodus fod yn anymarferol neu'n ddiystyr mewn ymchwil cymdeithasol, er enghraifft:

- Ymchwil i 'ymddygiad y cyhoedd', e.e. lleoliadau stryd neu dorf

- Lle byddai'n peryglu gwrthrychau'r ymchwil (e.e. wrth astudio'r rheini sy'n ymwneud ag ymddygiad anghyfreithlon megis cymryd cyffuriau), neu
- Lle gallai cydsyniad ysgrifenedig eu rhoi mewn perygl diangen.

**4.6 Cydsyniad ôl-weithredol**
Mewn rhai cyd-destunau, gellir sicrhau cydsyniad ôl-weithredol (ac yn yr achos hwn, mae cydsyniad gwybodus yn cyfeirio'n bennaf at gydsyniad i ddefnyddio'r data a sicrhawyd a dealltwriaeth o'r modd y defnyddir y data) e.e. wrth arbrofi ym maes seicoleg a arsylwir, neu lle bo angen ymchwil cudd a bod cyfiawnhad drosto - megis gwaith ym maes gwyriad lle mae'n ymwneud ag ymddygiad anfoesol neu anghyfreithlon.

**4.7 Achosion pan nad yw ffurflenni cydsynio yn briodol**
Dylid cydnabod nad yw ceisio cydsyniad ysgrifenedig yn briodol o dan bob amgylchiad. Er enghraifft, gall anllythrennedd fod yn broblem, ac felly ni fyddai gosod ffurflenni cydsynio ysgrifenedig yn ddull ystyrlon na dilys o sicrhau cydsyniad. Wrth gynnal ymchwil dramor gall fod amgylchiadau lle nad yw cyfieithu'n ymarferol; neu gall gofyn am gytundeb ysgrifenedig fod yn ddiwylliannol amhriodol. Mewn achosion o'r fath dylai'r ymchwilwyr geisio cydsyniad gwybodus llafar. Yn achos plant fodd bynnag rhaid cael cydsyniad gwybodus bob amser.

**4.8 Ymchwil Cudd**
Ni all ymchwil cudd gynnwys cydsyniad gwybodus, wrth reswm, oherwydd byddai rhoi gwybod i'r gwrthrych yn gwneud yr ymchwil yn amlwg. Os oes angen moesegol am gydsyniad gwybodus ar gyfer ymchwil, ni ellir caniatáu ymchwil cudd.

Os bydd unrhyw aelod o staff neu fyfyriwr yn ceisio defnyddio dulliau a chynlluniau ymchwil a gynhwysir yn yr eithriadau hyn, dylent yn y lle cyntaf geisio cyngor y Pwyllgor Moeseg Ymchwil.

**5. Anhysbysrwydd a Chyfrinachedd**
Mae gan y Brifysgol fel Rheolydd Data, ac ymchwilwyr fel aelodau o'r staff, rwymedigaethau dan Ddeddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018 ("GDPR y DU"). Mae'r rhain wedi'u nodi ym Mholisi Rheoli Data Ymchwil PCYDDS, y mae'n rhaid ei ddilyn bob amser.

Mae hawl yr unigolyn i breifatrwydd yn un o'r prif yrwyr moesegol yng nghymdeithasau'r gorllewin. Ym mherthynas yr ymchwilydd cymdeithasol â chyfranogwyr, cymhwysir hyn ar ffurf dau reidrwydd : anhysbysrwydd a chyfrinachedd. Gellir diffinio anhysbysrwydd a chyfrinachedd fel a ganlyn:

- Cyfeiria anhysbysrwydd at guddio enwau'r cyfranogwyr ym mhob dogfen sy'n deillio o'r ymchwil
- Mae cyfrinachedd yn ymwneud â phwy sydd â'r hawl i weld y data a ddarparwyd gan y cyfranogwyr.

Yn ymarferol, gellir crynhoi rhwymedigaeth yr ymchwilydd i'r sawl a ymchwilir fel a ganlyn:

- Dylid parchu anhysbysrwydd a phreifatrwydd. Golyga hyn y dylid cymryd gofal wrth benderfynu a ddylid cofnodi gwybodaeth sensitif neu bersonol ai peidio
- Dylid cadw enwau a chofnodion ymchwil yn gyfrinachol pa un ai a roddwyd addewid eglur i'r perwyl hwnnw ai peidio

**5.1 Cyfrinachedd a chyfraith gyffredin**

Yn hyn o beth, mae'n rhaid i ymchwilwyr gydymffurfio â chyfraith gyffredin cyfrinachedd. Ystyrir gwybodaeth yn gyfrinachol mewn cyfraith gyffredin:

- **i.** Os gellir ei chysylltu ag unigolyn adnabyddadwy (mae'r diffiniad o adnabyddadwy'n debyg i'r hyn a ddefnyddir ar gyfer data personol, ond gall data personol ymwneud â pherson byw'n unig, gall gwybodaeth gyfrinachol ymwneud â phobl sy'n fyw neu'n farw), ***ac***
- **ii.** Os nad yw'n gyhoeddus (ni osodir cyfyngiad o'r fath ar y diffiniad o ddata personol), ***ac***
- **iii.** Os yw'n cael ei rhoi gyda'r disgwyliad y caiff ei chadw'n gyfrinachol. Nid oes rhaid i unigolion fod yn benodol ynghylch eu disgwyliadau. Wrth ymddiried eu gwybodaeth i bobl eraill mae'r disgwyliad hwn yn aml yn ymhlyg.

Pan fydd unigolyn yn ymddiried gwybodaeth gyfrinachol i ymchwilydd neu dîm ymchwil, rhaid i'r tîm ei thrin yn unol â 'disgwyliadau rhesymol'. Mewn geiriau eraill, fel arfer dylid rhannu gwybodaeth gyfrinachol dim ond pan na fyddai hynny'n datgelu 'unrhyw bethau annisgwyl' i'r unigolion dan sylw. Pan na fyddai cyfranogwyr yn disgwyl i'r ymchwilydd rannu eu gwybodaeth gyfrinachol â phobl eraill, gall ymchwilwyr reoli eu disgwyliadau drwy eu hysbysu am eu bwriad (e.e. yn neunyddiau'r prosiect neu yn ystod trafodaethau am gymryd rhan) a gofyn iddynt a ydynt yn hapus â'r cynlluniau hyn. Dylent ddeall beth yw'r bwriad a beth gallai hyn ei olygu iddynt cyn iddynt benderfynu a all yr ymchwilydd rannu eu gwybodaeth gyfrinachol â phobl eraill. Dylai ymchwilwyr hefyd ystyried bob amser a fyddai modd iddynt gyfyngu rhannu gwybodaeth i wybodaeth sy'n gadarn ddienw yn unig. Gellir rhannu gwybodaeth sy'n gadarn ddienw heb orfod ystyried disgwyliadau rhesymol oherwydd rhaid i wybodaeth fod yn adnabyddadwy i fod yn ddarostyngedig i gyfraith gyffredin cyfrinachedd. Os oes amheuaeth ynghylch statws cyfredol y gyfraith gyffredin yng nghyswllt "gwybodaeth gyfrinachol" cyfeiriwch at y Swyddog Diogelu Data.

### 5.2 Anhysbysrwydd, cyfrinachedd a lles ehangach

Er bod parchu anhysbysrwydd a chyfrinachedd yn egwyddorion craidd mewn ymchwil cymdeithasol, nid egwyddorion absoliwt mo'r rhain. Gall sefyllfaoedd godi pan fydd dyletswydd gofal ar yr ymchwilydd i ddatgelu gwybodaeth a roddwyd yn gyfrinachol, neu a ddarganfu'r ymchwilydd trwy ymwneud â'r cyfranogwr. Er enghraifft, pe bai ymchwilydd yn dod i wybod am gam-drin mewn cartref gofal, byddai angen gweithredu ar y wybodaeth hon a rhoi gwybod i'r awdurdod perthnasol. Byddai'r awdurdod perthnasol mewn unrhyw achos penodol yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau. Ym mhob achos, dylai ymchwilwyr drafod y mater hwn gyda Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol a fydd yn rhoi cyngor ar gyfrifoldebau'r Brifysgol, a rhwymedigaethau cyfreithiol a moesegol.

## 6. Data Categorïau Arbennig

Mae GDPR y DU yn diffinio data penodol fel data categorïau arbennig, ac mae hyn yn gofyn am amodau ***ychwanegol*** er mwyn eu prosesu. Mae'r data categorïau arbennig fel a ganlyn, ac maent yn debygol iawn o fod yn arbennig o berthnasol i ymchwil a gyflawnir yn y Dyniaethau, y celfyddydau a'r gwyddorau cymdeithasol yn y Brifysgol:

- Data personol sy'n datgelu **tarddiad hiliol neu ethnig**
- Data personol sy'n datgelu **barn wleidyddol**
- Data personol sy'n datgelu **credoau crefyddol neu athronyddol**
- Data personol sy'n datgelu **aelodaeth o undeb llafur**
- **Data genetig**
- **Data biometrig** (lle cânt eu defnyddio at ddibenion adnabod)
- Data'n ymwneud ag **iechyd**
- Data'n ymwneud â **bywyd rhywiol person**; a

- Data’n ymwneud â **chyfeiriadedd rhywiol** person.

**Mesurau diogelu:** Wrth brosesu data categorïau arbennig at ddibenion ymchwil, rhaid i’r ymchwilwyr fodloni amod ychwanegol, a elwir yn **fesurau diogelu Erthygl 89(1)**. Mae’r rhain yn ei gwneud yn ofynnol bod “mesurau addas a phenodol i ddiogelu hawliau sylfaenol a buddiannau’r testun data” yn eu lle. Mae’r mesurau diogelu hyn yn cynnwys mesurau technegol a threfniadol ac maent yn darparu sicrhad ar gyfer cyfranogwyr ymchwil ynghylch y canlynol:

1. Mae’r prosesu data’n angenrheidiol i gefnogi ymchwil
2. Defnyddir y prosesu data i gefnogi gweithgareddau ymchwil dilys yr ystyrir eu bod er budd y cyhoedd yn unig
3. Mae buddiannau testunau data’n cael eu diogelu/hamddiffyn
4. Dangosir nad yw'r prosesu’n debygol o achosi niwed neu drallod sylweddol i unigolion
5. Ni ddefnyddir y data i gymryd unrhyw gamau na gwneud unrhyw benderfyniadau yn gysylltiedig â’r unigolion dan sylw

**Y mesurau technegol a threfniadol yw:**

6. Egwyddor lleihau: bod ymchwilwyr ond yn casglu’r data personol lleiaf sy’n angenrheidiol at y diben ymchwil a bennir (e.e. os nad oes angen i ni gasglu gwybodaeth am ethnigrwydd, ni fyddwn yn gofyn amdani)
7. Dangosir pam na all yr ymchwil ddefnyddio data dienw (y dylai data gael eu gwneud yn ddienw pryd bynnag y bo’n bosibl, naill ai wrth gipio’r data neu pan gânt eu coladu)
8. Ystyrir a allai’r ymchwil ddefnyddio ffugenwau i’w gwneud yn anos cysylltu’r data personol yn ôl i unigolion penodol (os na ellir gwneud data’n ddienw, pan fo’n bosibl, defnyddir ffugenwau);
9. Ystyrir mesurau diogelu a diogelwch priodol eraill (storio’r data’n ddiogel a bod mesurau technegol a threfniadol priodol yn eu lle i ddiogelu data personol).

**Prawf Budd y Cyhoedd**
Ar wahân i roi’r mesurau technegol a threfniadol hyn yn eu lle, rhaid i ymchwilwyr allu profi bod yr ymchwil er budd y cyhoedd, ac fel y trafodwyd uchod, ei fod yn angenrheidiol er mwyn cyflawni’r dasg honno. Bydd y mathau o dystiolaeth ar gyfer profi bod ymchwil er budd y cyhoedd yn gyfarwydd iawn i ymchwilwyr ac yn debygol iawn o fod yn eu lle eisoes. Yn PCYDDS, penderfynir ar hyn orau gan yr ymchwilydd ar y cyd â’r Pwyllgor Moeseg, a fydd yn sicrhau y rhoddir cymeradwyaeth i’r ymchwil ar yr amodau canlynol yn unig:

9. Mae’r ymchwil yn gymesur
10. Mae’r fethodoleg yn briodol i nodau a chanlyniadau arfaethedig yr ymchwil ac yn cydymffurfio â safonau ac arfer gorau sy’n benodol i’r maes
11. Mae’r ymchwil a’r fethodoleg yn bodloni safonau proffesiynol neu godau ymarfer a / neu gyfarwyddyd priodol
12. Ymgymerir â’r ymchwil o fewn fframwaith llywodraethu priodol.

Pan fo ymchwil wedi bod drwy adolygiad gan gymheiriaid (er enghraifft gan gorff sy’n dyfarnu grantiau megis UKRI neu’r UE) mae’n debygol y dangosir ei fod er budd y cyhoedd hefyd.

## Atodiad 2. Diogelu – Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

Nod y Gwasanaeth Diogelu a Gwahardd yw helpu sefydliadau yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol trwy nodi ymgeiswyr a allai fod yn anaddas i weithio gyda phlant neu i ddal swyddi penodol. Diffinnir plentyn yn y cyswllt hwn yn berson dan 18 oed.

Bydd y staff a'r myfyrwyr ar bob lefel sy'n gwneud gwaith ymchwil sy'n cynnwys cyswllt unigol neu gyswllt arall heb oruchwyliaeth â phlant yn cael eu harchwilio. Dylid nodi'r angen am wiriad gan yr ymchwilydd a'r goruchwyliwr ar sail natur y gweithgarwch dan sylw. Gall y Pwyllgorau Moeseg hefyd wneud argymhellion ynghylch gwiriadau DBS ar gyfer y prosiectau a arolygir ganddynt.

Bydd y Pwyllgor Moeseg yn gofyn am gadarnhad bod gwiriad DBS manylach wedi ei sicrhau lle mae ymchwilwyr yn gweithio'n unigol neu heb oruchwyliaeth gyda chyfranogwyr dan 18 oed. Dylid cyflwyno tystiolaeth o'r gwiriad ynghyd â'r holl ddogfennau eraill a ddarperir wrth wneud cais i'r Pwyllgor Moeseg.

### Prosesu'r ffurflenni DBS

Pan nodir y bydd angen gwiriad DBS ar gyfer swydd unigol, gwneir nodyn o hynny ar y ffurflen RS1 (ffurflen Caniatâd i Recriwtio). Gweinyddir gwiriadau DBS gan yr Adran Adnoddau Dynol.

Pe bai'r Brifysgol yn cael ei hysbysu bod cofnod troseddol yn gwahardd unigolyn rhag cyflawni gweithgaredd arfaethedig a reoleiddir, caiff y mater ei ystyried gan y Cyfarwyddwr AD, Cadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Chadeirydd y Pwyllgor Ymchwil. Bydd materion yn mynd rhagddynt yn unol â'r polisi Adnoddau Dynol perthnasol.

Mae gwiriadau DBS ar gael ar dair lefel wahanol, a cheir gwiriad manylach:

- Mae **gwiriadau safonol** yn addas ar gyfer rhai swyddi ariannol a diogelwch. Bydd gwiriad safonol yn dangos unrhyw gollfarnau heb ddarfod, rhybuddiadau, rhybuddion neu geryddon ynghyd ag unrhyw gollfarnau a rhybuddion sydd wedi darfod nad ydynt yn gymwys ar gyfer hidlo.
- Mae **gwiriadau manylach** yn addas ar gyfer rolau cymwys lle bydd yr ymgeisydd yn gweithio/gwirfoddoli gyda phlant, pobl ifanc a/neu grwpiau agored i niwed. Bydd gwiriad manylach yn dangos unrhyw gollfarnau heb ddarfod, rhybuddiadau, rhybuddion neu geryddon ynghyd ag unrhyw gollfarnau a rhybuddion sydd wedi darfod nad ydynt yn gymwys ar gyfer hidlo. Yn ogystal gellir cynnwys cudd-wybodaeth a gedwir gan yr Heddlu os cred yr Heddlu'n rhesymol ei fod yn berthnasol i benderfyniad recriwtio.
- Mae **gwiriadau manylach gyda gwiriadau Rhestr Waharddedig DBS** yn addas ar gyfer rolau lle bydd yr ymgeisydd yn gweithio/gwirfoddoli mewn gweithgaredd a reoleiddir gyda phlant a/neu oedolion agored i niwed. Bydd gwiriad Manylach gyda gwiriadau rhestr Waharddedig DBS yn dangos yr un wybodaeth â gwiriad manylach ynghyd ag unrhyw wybodaeth a gedwir ar y rhestr(au) gwaharddedig sy'n cael eu gwirio.

Gweithgaredd a Reoleiddir

Gwaith na ddylai person gwaharddedig ei wneud yw gweithgaredd a reoleiddir. Mae'r diffiniad o weithgaredd a reoleiddir (h.y. gwaith na ddylai person gwaharddedig ei wneud) mewn perthynas â phlant yn cynnwys, yn gryno:

- gweithgareddau heb arolygiaeth: addysgu, hyfforddi, cyfarwyddo, gofalu am blant neu oruchwylio plant, neu ddarparu cyngor/arweiniad ar les, neu yrru cerbyd i blant yn unig;

- gweithio i ystod gyfyngedig o sefydliadau ('mannau penodol'), gyda chyfle i gael cyswllt: e.e. ysgolion, cartrefi plant, mannau gofal plant. Nid gwaith gan wirfoddolwyr a oruchwylir;

**Cod Ymarfer DBS**

Mae'r DBS yn cydnabod bod y wybodaeth yn y Datgeliad Safonol a Manylach yn hynod o sensitif a phersonol, felly mae wedi cyhoeddi Cod Ymarfer a chanllawiau i gyflogwyr ar gyfer y rheini sy'n derbyn Datgeliadau i sicrhau eu bod yn cael eu trin yn deg a'u defnyddio'n briodol. Rhaid i sefydliadau sydd am ddefnyddio gwiriadau DBS gydymffurfio â Chod Ymarfer y DBS. Mae polisi'r Brifysgol ar gael gan Adnoddau Dynol.

**Oedolion Agored i Niwed**

Er nad yw'r DBS bellach yn cydnabod categori 'oedolyn agored i niwed', rhaid talu sylw arbennig i'r cynllun ymchwil, yr offer ymchwil, y broses o gael cydsyniad a pharchu cyfrinachedd mewn perthynas ag ymchwil gydag oedolyn agored i niwed. Mae oedolyn agored i niwed yn berson 18 oed neu fwy sydd:

- yn byw mewn llety preswyl, megis cartref gofal neu ysgol arbennig breswyl
- yn byw mewn tai gwarchod
- yn cael gofal cartref yn ei gartref ei hun
- yn cael unrhyw fath o ofal iechyd
- yn cael ei ddal mewn carchar, canolfan remánd, sefydliad troseddwyr ifanc, canolfan hyfforddi ddiogel neu ganolfan bresenoldeb neu o dan bwerau Deddf Mewnfudo a Lloches 1999
- mewn cyswllt â'r gwasanaethau prawf
- yn derbyn gwasanaeth lles fel y disgrifir yn y rheoliadau
- yn derbyn gwasanaeth neu'n cymryd rhan mewn gweithgaredd a anelir yn benodol at bobl ag anghenion yn gysylltiedig ag oedran, anableddau neu gyflyrau corfforol neu gyflyrau iechyd meddwl penodol neu famau sy'n disgwyl neu sy'n bwydo o'r fron ac sy'n byw mewn gofal preswyl (mae anghenion sy'n gysylltiedig ag oedran yn cynnwys anghenion sy'n gysylltiedig ag eiddilwch, afiechyd, anabledd neu allu meddyliol);
- yn derbyn taliadau uniongyrchol gan awdurdod lleol/corff IGC yn lle gwasanaethau gofal cymdeithasol
- ag angen cymorth wrth gyflawni ei fusnes personol.

O safbwynt diogelu data, mae angen gwarchodaeth arbennig ar bob person agored i niwed (yn blant ac oedolion). Fel y nodir yn Adran 10, dylid cynnal DPIA pryd bynnag y byddwch yn gweithio gyda phobl fregus.

**Atodiad 3: Fframweithiau Proffesiynol a sefydliadau.**

**Y Concordat i gefnogi integredd ymchwil**
Mae'r concordat i gefnogi integredd ymchwil yn gofyn i brifysgolion, sefydliadau ymchwil ac ymchwilwyr unigol i ymrwymo i sicrhau bod y safonau uchaf o drylwyredd ac integredd yn sail i'w gwaith.

https://www.universitiesuk.ac.uk/topics/research-and-innovation/concordat-support-research-integrity

**Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG).** Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG) yw awdurdod annibynnol y DU a sefydlwyd i gynnal hawliau gwybodaeth er budd y cyhoedd, gan hyrwyddo didwylledd gan gyrff cyhoeddus a phreifatrwydd data i unigolion. Mae'r Swyddfa'n rhoi arweiniad ynglŷn â'ch rhwymedigaethau a sut i gydymffurfio, gan gynnwys diogelu gwybodaeth bersonol, a rhoi mynediad i wybodaeth swyddogol. https://ico.org.uk/

**Cyrff Proffesiynol – Codau Ymarfer Moesegol.** Mae gan amrywiol grwpiau proffesiynol eu canllawiau moesegol eu hunain ac mae nifer o'r rhain ar gael yn hwylus ar y we a gellir ymgynghori â nhw drwy ddilyn y dolenni isod. Ym mhob achos, cyfrifoldeb yr ymchwilydd yw bodloni'r safonau trothwy moesegol uchaf a osodir gan y corff proffesiynol perthnasol.

**UKRI**
- Cyfarwyddyd ynghylch moeseg ymchwil
- http://www.esrc.ac.uk/funding/guidance-for-applicants/research-ethics/

- Ymchwil ac Arloesi Dibynadwy
- https://www.ukri.org/about-us/policies-standards-and-data/good-research-resource-hub/trusted-research-and-innovation/

**Datganiad Singapore ar Integredd Ymchwil**
- http://www.singaporestatement.org/

**Cod Ymddygiad Ewrop ar gyfer Integredd Ymchwil**
- http://archives.esf.org/coordinating-research/mo-fora/research-integrity.html

**Swyddfa Gwyddoniaeth y Llywodraeth (www.bis.gov.uk/go-science)**
- *Rigour, Respect, Responsibility: a Universal Ethical Code for Scientists*
- http://www.bis.gov.uk/assets/goscience/docs/u/universal-ethical-code-scientists.pdf

**Swyddfa Integredd Ymchwil y DU (www.ukrio.org)**
- *Code of Practice for Research: Promoting good practice and preventing misconduct*
- https://ukrio.org/publications/code-of-practice-for-research

- *Procedure for the Investigation of Misconduct in Research*
- http://ukrio.org/publications/misconduct-investigation-procedure/